# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 6 Hydref 2022

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

**Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.15 - 09.30)

2.1 Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar Faes Awyr Caerdydd

(Tudalennau 1 - 6)

2.2 Llythyr gan Lywodraeth Cymru i Gadeirydd y Pwyllgor ar Fferm Gilestone

(Tudalennau 7 - 12)

## 3 Craffu ar Gyfrifon - Comisiwn y Senedd 2021-22

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 13 - 52)

**(Egwyl)**

(10.30 - 10.40)

## 4 Craffu ar Gyfrifon - Llywodraeth Cymru 2020-21

(10.40 - 12.10) (Tudalennau 53 - 112)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitemau 6 a 7.

## 6 Letter from the Welsh Government on Cardiff Airport

(Tudalennau 113 - 114)

## 7 Craffu ar Gyfrifon: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(12.10 - 12.30)

Eitem 2.1

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Medi 2022

Annwyl Gadeirydd

**MAES AWYR CAERDYDD**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Awst 2022 yn amlinellu'r rhestr o bwyntiau gweithredu o gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 29 Mehefin.

Rwy'n gallu cadarnhau y byddwn yn darparu ein diweddariad nesaf ar y Maes Awyr ar gyfer y Pwyllgor chwe mis ar ôl dyddiad y llythyr hwn, ac wedi hynny bob chwe mis.

**Benthyciadau**

Rydym bellach wedi cyhoeddi'r wybodaeth am y cyllid a roddwyd i'r Maes Awyr ar ein gwefan. Mae ar gael yma:

Maes Awyr Caerdydd: ein rôl | LLYW.CYMRU / Cardiff Airport: our role | GOV.WALES

**Y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro**

Rydym wedi trafod â'r Maes Awyr pa wybodaeth y gall y ddau barti ei rhannu â'r Pwyllgor am y cynllun, a'r perfformiad yn ei erbyn. Mae cynnwys y llythyr hwn yn darparu rhagor o wybodaeth yn hyn o beth.

**Cytundeb cyfrinachedd**

Yn gyntaf byddaf yn ateb cwestiwn y Pwyllgor am y cytundeb cyfrinachedd. Gwnaeth y Maes Awyr gais am gytundeb cyfrinachedd i sicrhau nad yw'r wybodaeth gyfrinachol am fasnach sy'n cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru (y Rhoddwr Benthyciadau) a Banc Datblygu Cymru (yr Asiant) sy'n gysylltiedig â'i Gytundeb Benthyciad Masnachol yn cael ei chyhoeddi. Mae hyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai'n cael effaith andwyol ar fuddiannau masnachol y Maes Awyr pe bai cystadleuwyr yn y diwydiant yn cael gwybodaeth amdani, ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y busnes a'i allu i adfer

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@llyw.cymru

o'r pandemig.

Mae'n weddol arferol i sefydliadau masnachol preifat ofyn i lywodraethau a buddsoddwyr eraill lofnodi cytundebau cyfrinachedd yn yr un amgylchiadau, neu amgylchiadau tebyg, i wneud yn siŵr bod eu cyfrinachau masnach a /neu wybodaeth berchnogol yn parhau i fod yn breifat a chael eu diogelu.

**Adroddiadau Chwarterol**
Gan droi at y metrigau a ddefnyddir yn yr adroddiadau chwarterol ar berfformiad y Maes Awyr yn erbyn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro, rydym wedi cytuno ar y targedau canlynol gyda'r Maes Awyr – ac mae'r rhain yn eu cytundeb grant;

| **Disgrifiad o'r Targed** | **Y dyddiad y dylid cyrraedd y targed** | **Y dystiolaeth sydd ei hangen** |
|---|---|---|
| Sicrhau bod 1.3 miliwn o deithwyr yn hedfan bob blwyddyn | 31 Mawrth 2026 | Adroddiad yn nodi nifer y teithwyr ar sail data a gyflwynir i'r Awdurdod Hedfan Sifil |
| Cyrraedd lefel o broffidioldeb, wedi'i mesur â graddfa EBITDA (Enillion cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio) | 31 Mawrth 2029 | Set o gyfrifon wedi'u harchwilio |
| Arbedion i gostau cyflogau o £500,000 o leiaf | Diwedd y flwyddyn o 31 Mawrth 2022 | Adroddiad blynyddol |
| Cadw costau gweithredu yn unol â rhagolygon 11/02/21 | 31 Mawrth 2029 | Rhaid adrodd am unrhyw gynnydd rhagamcanol o fwy na 5% i Swyddog Llywodraeth Cymru fel rhan o'r adroddiadau chwarterol. |
| Ymrwymiad i fod yn garbon niwtral:<br>a) Ymrwymo i fferm solar weithredol ym Maes Awyr Caerdydd (neu ddull effeithlon arall ar gyfer cynhyrchu'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio) | 31 Mawrth 2023 | I'w ddiweddaru fel rhan o'r adroddiadau chwarterol. |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | | |
|---|---|---|
| b) Ymrwymiad i ddatblygu tanwydd hedfanaeth cynaliadwy a'i gynnig i gwmnïau awyrennau ym Maes Awyr Caerdydd cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl.<br>c) Ymrwymiad y bydd cerbydau sy'n cael eu prynu yn y dyfodol yn drydan neu'n hybrid (lle maent ar gael)<br>d) Cynnig strwythur prisiau (y gellir ei gyhoeddi) lle mae ffioedd a thaliadau is ar gyfer y cwmnïau hedfan sy'n gweithredu'r awyrennau mwyaf effeithlon o ran tanwydd.<br>e) Canolbwyntio ar wella llwybrau hedfan amgylcheddol | | |

Mae un targed arall sy'n fasnachol gyfrinachol ac a fyddai'n cael effaith andwyol ar fuddiannau masnachol y Maes Awyr pe bai cystadleuwyr yn y diwydiant yn cael gwybod amdano. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân yn hyn o beth, o dan amodau cyfrinachol.

Yn ogystal â'r targedau a amlinellir uchod, mae gan y Maes Awyr gyfamodau ariannol wedi'u hamlinellu yn eu cytundeb benthyciad gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag EBITDA lleiaf (i'w fesur a'i fonitro'n chwarterol) a gofynion ar gyfer balans arian parod (i'w mesur a'u monitro'n chwarterol) gan ein hasiant benthyciadau, sef Banc Datblygu Cymru. Mae'r rhain wedi cael eu gosod yn dynn o fwriad fel system rhybuddio cynnar er mwyn tynnu ein sylw at unrhyw risgiau ariannol.

Rhaid i'r Maes Awyr gyflwyno adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru er mwyn inni fonitro eu cydymffurfedd â'r amodau wedi'u hamlinellu yn y cytundebau grant a benthyciad. Rhaid i'r Maes Awyr gyflwyno adroddiad chwarterol yn dangos yr incwm gwirioneddol yn erbyn yr incwm a'r gwariant rhagamcanol, ynghyd ag adroddiad ysgrifenedig yn nodi unrhyw amrywiadau negyddol o'r gyllideb y cytunwyd arni, gan amlinellu gyda digon o fanylder y rheswm dros amrywiadau o'r fath. Mae hyn hefyd yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Ailstrwythuro. Yn ogystal â hyn bydd y Maes Awyr yn darparu cyfrifon rheoli misol a rhagamcanion arian parod bob pythefnos ar gyfer y 12 mis nesaf er mwyn monitro eu perfformiad yn rheolaidd.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bob tro mae'r Maes Awyr yn cyflwyno cais i dynnu arian i lawr o'r grant, rhaid iddynt ddarparu manylion y gwariant gwirioneddol ar gyfer y chwarter blaenorol, manylion y gwariant amcangyfrifedig ar gyfer y chwarter nesaf a manylion yr holl arian dros ben a gedwir ar ddiwedd y chwarter blaenorol. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth eu bod yn gweithredu, ym mhob ffordd, yn unol â'u cyfansoddiad, a chadarnhad bod systemau priodol ar waith ar gyfer rheoli arian a risg cyn defnyddio unrhyw ran o'r cyllid i brynu unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd partïon.

Mewn perthynas â'r holl wariant cyfalaf a amlinellir yn y cytundeb, rhaid i'r Maes Awyr hysbysu Llywodraeth Cymru yn ysgrifenedig am unrhyw wariant o dan £50,000. Rhaid i unrhyw wariant rhwng £50,000 ac £1,000,000 gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru o fewn pum diwrnod gwaith. Rhaid i unrhyw wariant dros £1 miliwn gael ei adolygu gan drydydd parti wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru cyn inni ei gymeradwyo.

**Adroddiad cynnydd**

Mewn perthynas â chais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am fonitro ac asesu perfformiad yn erbyn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro, gallwn rannu'r wybodaeth ganlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn pedwar adroddiad chwarterol hyd yn hyn ar y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro gan ei hasiant benthyciadau, Banc Datblygu Cymru.

- Mae'r adroddiad diweddaraf ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 yn nodi bod busnes y Maes Awyr wedi bod yn wael iawn yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022. Roedd hyn o ganlyniad i'r cyfyngiadau teithio parhaus yng mewn perthynas â phandemig COVID.

- Roedd niferoedd teithwyr wedi parhau i fod yn isel ar draws pob maes ym mis Ionawr a mis Chwefror. Mis Mawrth oedd y mis cyntaf lle cafodd y targed ar gyfer nifer y teithwyr ei gyrraedd, gyda 38,000 o deithwyr yn cael eu prosesu. Roedd hyn o ganlyniad i gyfyngiadau teithio rhyngwladol yn cael eu codi.

- Cyfanswm y teithwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben fis Mawrth 2022 oedd 188,000

- Mae addasiadau gweithredol wedi sicrhau bod y ffigurau ar gyfer elw net/(colledion) yn parhau i fod yn unol â'r gyllideb a osodwyd yng Ngwanwyn 2021.

- Mae arian parod yn cael ei gadw drwy reoli costau'n dynn iawn a gohirio gwario cyfalaf, wrth sicrhau bod y Maes Awyr yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau er mwyn gweithredu.

- Er y niferoedd isel o deithwyr, mae incwm ar gyfer y misoedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 yn 28% yn uwch na'r gyllideb. Mae'r incwm ychwanegol yn ymwneud



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ag eitemau nad ydynt yn gysylltiedig â hedfan: derbyniadau yswiriant, derbyniadau ffyrlo ac incwm o gontract Sain Tathan.

- Nid yw'r maes awyr wedi gwneud elw hyd yn hyn, yn ôl graddfa EBIDTA. Mae LBITDA (Colled cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio) yn unol â'r gyllideb, mae gwneud elw yn darged ar gyfer y dyfodol.

- Mae'r maes awyr yn parhau i gynnal costau gweithredu yn unol â rhagolwg 11/02/21.

- Roedd y maes awyr wedi cyrraedd targed i arbed o leiaf £500,000 mewn costau cyflogau yn y flwyddyn a ddaeth i ben fis Mawrth 2022.

- Mae'r maes awyr wedi ymrwymo i adeiladu fferm solar weithredol ym Maes Awyr Caerdydd yn y flwyddyn ariannol 22/23.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn ac wedi cymeradwyo chwe chais gan y maes awyr hyd yn hyn i wneud gwariant cyfalaf rhwng £50,000 a £1,000,000, cyfanswm o £1.2 miliwn o gyllideb a gafodd ei chymeradwyo ymlaen llaw o tua £29 miliwn, wedi'i clustnodi tan fis Mawrth 2026. Ystyrid bod yr holl fuddsoddiadau'n gostau gweithredol hanfodol er mwyn sicrhau bod y maes awyr yn parhau i weithredu yn unol â'r rheoliadau.

O ran y dyfodol, bob chwe mis byddwn yn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor, yn erbyn pob un o'r targedau a amlinellir yn y tabl uchod, faint o arian sydd wedi cael ei dynnu i lawr o'r grant hyd yn hyn, nifer y ceisiadau i wneud gwariant cyfalaf sydd wedi cael eu cymeradwyo a'r cyfanswm gwerth hyd yn hyn fel yr amlinellir yn yr adran adroddiadau cynnydd uchod.

**WGC Holdco Ltd**

Mae WGC Holdco Limited yn parhau i reol holl benderfyniadau materol mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf drwy gytundeb cyfranddalwyr â'r Maes Awyr, ond nid oes ganddo unrhyw gyfrifoldeb am benderfyniadau Bwrdd y Maes Awyr.

Prif ddyletswydd WGC Holdco Ltd yw sicrhau bod cyfranddaliadau Gweinidogion Cymru ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn darparu gwerth. Yn ogystal, mae hefyd yn gyfrifol am ddarparu arweiniad strategol i'r Maes Awyr, gwella eu cynllun busnes, a darparu sicrwydd ar gyfer y trefniadau llywodraethu a gwariant ariannol yn y Maes Awyr. Mae hefyd yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad gweithredol ac ariannol y Maes Awyr, ac am gytuno i faterion fel penodi neu ddiswyddo cyfarwyddwyr a'r angen i geisio cydsyniad mewn perthynas â thrafodiadau materol.

Fel y trafodwyd yn eich Pwyllgor, yn dilyn adolygiad mewnol o drefniadau llywodraethu WGC Holdco Ltd, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ddau Gyfarwyddwr

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Anweithredol newydd gael eu penodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr Holdco, yn lle'r ddau Uwch-was Sifil. Bydd y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu cadw, fel y bydd lle ar gyfer un Uwch-was Sifil ar y Bwrdd.

Bydd y newidiadau hyn yn gwella arbenigedd busnes masnachol y Bwrdd, ac yn darparu rhagor o annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod cyfranddaliadau Gweinidogion Cymru yn y Maes Awyr yn darparu rhagor o werth. Bydd hefyd yn darparu arweiniad strategol cryfach i'r Maes Awyr; arbenigedd masnachol gwell wrth graffu ar gynllun busnes y Maes Awyr a'i gymeradwyo; sicrwydd gwell ar gyfer trefniadau llywodraethu a gwariant ariannol y Maes Awyr; a goruchwyliaeth well ar gyfer perfformiad gweithredol ac ariannol y Maes Awyr.

Bydd y Maes Awyr yn ceisio denu cwmnïau hedfan a theithwyr yn ôl dros y flynyddoedd nesaf, felly nid yn unig mae angen arbenigedd masnachol cyffredinol ar Gyfarwyddwyr Holdco, ond hefyd profiad arbenigol o ailadeiladu busnesau, adfer cyfran o'r farchnad a chwilio am ffynonellau incwm newydd.

Yn fuan byddwn yn dechrau proses Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer recriwtio'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd, gobeithio erbyn diwedd yr hydref, gan sicrhau bod pobl â'r lefel gywir o brofiad ac arbenigedd yn cael eu recriwtio i Fwrdd Holdco. Rydym yn gobeithio cwblhau'r broses ymarfer yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn olaf, mewn perthynas â phenodi Cadeirydd i Holdco, ar hyn o bryd rydym yn derbyn cyngor mewnol ar yr egwyddorion a'r rheolau sy'n llywodraethu'r broses o benodi Cadeirydd i is-gwmni Llywodraeth Cymru sydd o dan berchnogaeth lwyr, gan y bydd hyn yn arwain y penderfyniad terfynol ynghylch penodi Cadeirydd. Byddwn i'n ysgrifennu at y Pwyllgor unwaith eto pan fydd gennyf wybodaeth gliriach yn hyn o beth, a phan fydd swyddi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd wedi cael eu hysbysebu yn gyhoeddus. Rwyf hefyd yn cynnwys dolen i'r hysbysebion hynny.

Yn gywir

Tracey Burke.

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Grwp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood MS
Chair
Public Accounts and Public Administration Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

26th September 2022

Dear Chair

During the Committee evidence session on Gilestone Farm that I attended with colleagues on 14 July, several matters arose on which I undertook to write to provide further information. These actions and a number of additional questions from the Committee were set out in your letter to me of 8 August. I address each of these points below.

Members asked about previous financial support for the Green Man festival and related companies. Some rounded estimates were provided but the Committee would welcome confirmation of a full breakdown of Welsh Government support over the period discussed during the evidence session, including funding that might have been provided by the Arts Council.

Between 2010 and 2019, Green Man and its associated companies received financial support totalling £921,000 from Welsh Government.

The full breakdown of funding from Welsh Government is as follows:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

| Funding Programme | Year of Award | Total |
|---|---|---|
| Welsh Government Major Events Grant Programme | 2010 | £175,000 |
| Welsh Government Major Events Grant Programme | 2014 | £170,000 |
| Welsh Government Commercial Sponsorship - funding linked to BBC6 Music | 2015-2016 | £276,000 |
| Welsh Government Commercial Sponsorship Support | 2016 | £50,000 |
| Welsh Government Major Events Grant Programme | 2017 | £150,000 |
| WG Tourism Product Innovation Fund | 2017-2019 | £100,000 |

During the Committee session of 14 July, it was noted that Green Man and its associated companies received financial support totalling £1.081m from Welsh Government. This figure included a payment of £160,000 made directly to the Glanusk Estate relative to capital infrastructure works at the site and was not made directly to Green Man.

In addition, Green Man Festival and its charitable arm, Green Man Trust, received funding totalling £526,111 under the Cultural Recovery Fund as part of our wider package of Covid-19 financial support available to businesses in Wales. Of this sum, Green Man Festival directly received £481,000 and Green Man Trust received £45,111 via the Arts Council for Wales.

Members also asked about the UK Government’s support for festivals, citing Glastonbury and Notting Hill festivals in particular. You offered to look into this and provide further information if possible. We would ask that your response differentiates any support as part of wider COVID-related measures from more general development support.

In order to receive a full report on the UK Government’s support for festivals, I believe the Committee would need formally to approach the UK Department for Digital, Culture, Media and Sport (DCMS).

Officials have however spoken to counterparts within the UK Government and have received the following information which may be of help. Please note that this is not a comprehensive list and is simply an illustration of the types of support provided to festivals in England, mainly pre-pandemic.

Arts Council England Funding:

| Project Title | Applicant Name | Related festival | Amount | Year | Type |
|---|---|---|---|---|---|
| Arts Council England National Portfolio Organisation Grant | Carnival Village Trust | Notting Hill Carnival | £407,360 | 2022/2023 | Grants for the Arts/Project Grants |
| Capital Investment | Carnival Village Trust | Notting Hill Carnival | £ 245,000 | 2021/22 | Capital Investment |
| Boomtown Chapter 11 | Boomtown Festival UK limited | Boomtown festival | £ 41,650 | 2018/19 | Grants for the Arts/Project Grants |
| Boomtown Fair – Chapter 10 Narrative and the Immersive Maze | Boomtown Festival UK limited | Boomtown festival | £ 32,685 | 2018/19 | Grants for the Arts/Project Grants |
| Glastonbury Commissions 2020 | Glastonbury Festivals | Glastonbury Festival | £ 14,950 | 2019/20 | Grants for the Arts/Project Grants |
| Glastonbury Commissions 2019 | Glastonbury Festivals | Glastonbury Festival | £ 14,500 | 2018/19 | Grants for the Arts/Project Grants |
| Notting Hill Carnival Pioneers Festival 2019 | Notting Hill Carnival Pioneers CIC | Notting Hill Carnival | £ 15,000 | 2019/20 | Grants for the Arts/Project Grants |

UK Government Covid Recovery Fund (CRF) Awards appear to have included the following:

- **Boomtown Festival UK Limited** received a grant of £991,864 in CRF2 (grants announced in March/April 2021).

- **Glastonbury Festival Events Limited** received a grant of £900,000 in CRF2, and a further grant of £600,000 in CRF3 (grant announced in November 2021).

- **WOMAD Ltd** received a grant of £248,006 in CRF1 and £217,336 in CRF3.

- **Carnival Village Trust** (who we understand play a key role in the organisation of the **Notting Hill Carnival)** received a grant of £250,000 in CRF2.

The Welsh Government has cited evidence of economic benefits associated with the Green Man festival. Has the Welsh Government undertaken any due diligence around figures relating to economic benefits from the existing festival and/or will it be doing so as part of its appraisal of the full business plan for Gilestone Farm?

The evidence cited on the economic benefits associated with the festival was presented to Welsh Government by Green Man following the 2018 festival. The data quoted were from the conclusions of an independent evaluation report commissioned by the Green Man Festival and undertaken by BOP Consulting, a research and consulting practice of international standing who are experts in the field of culture and the creative economy.

The Welsh Government does not plan to undertake further analysis around the findings of this independent report per se, as the evidence primarily relates to the Green Man *Festival* itself and not the wider activities being proposed for Gilestone Farm. The Welsh Government is, however, undertaking robust due diligence work in respect of the potential economic impact of the proposed activities at Gilestone Farm and the finances of Green Man group structure and its associated companies.

On sporting rights, you indicated in your evidence that 'Rights of this sort apply on many properties, especially in rural areas and over large areas of land, and we are in discussions with the individual, and that was part of the process of purchasing the farm'. The Committee has seen a copy of a letter to the First Minister dated 8 July 2022, the apparent purpose of which was to ensure the Welsh Government was aware of the sporting rights. It could be interpreted from your evidence that there were discussions with the owner of the rights as part of the purchase process, but the letter to the First Minister would suggest otherwise. We would therefore ask you to clarify whether you were referring simply to the sporting rights issue having been identified during the purchase process, but without any actual discussions having taken place at that point with the owner of the rights.

Through the due diligence exercise carried out prior to the purchase of Gilestone Farm, Welsh Government officials were made aware of the existence of fishing and shooting rights held by a third party. No separate contact was made with the beneficiary of those rights prior to the acquisition as this did not form a core part of the purchasing process. As part of forming an in-principle position on the finalised Green Man business plan, an assessment will be made on how the third party ownership of said rights could impact on the proposed activities. Appropriate discussions with the beneficiary of the rights will then take place as needed.

Your evidence paper suggests that it was in February 2022 that Green Man first brought Gilestone Farm to the Welsh Government's attention. However, in response to a previous Written Question (WQ85337) about meetings in relation to Gilestone Farm, the Welsh Government referenced a meeting between officials and members of the Green Man Festival/Plant Pot Ltd on 22 October 2021. We would welcome clarification of the scope of that meeting and whether Gilestone Farm was, in fact, already under discussion at that point. We would also like to confirm the Welsh Government's understanding of how those associated

with Green Man became aware that Gilestone Farm would potentially become available before notifying the Welsh Government of this in February 2022.

The meeting in October 2021 was to discuss options after the Welsh Government had found no suitable sites within its land database to support Green Man's plans. Green Man then appointed an external agent to search for suitable sites. Following this exercise, Green Man made Welsh Government officials aware of the potential availability of Gilestone Farm in a video call in February 2022.

Also during the evidence session, members questioned whether the Welsh Government had been aware of the apparent marketing of Gilestone Farm in February 2020 (the marketing materials the Committee has received were dated as last updated in February 2020). Your responses indicated the Welsh Government's belief that the property had not been on the open market at that time. We would welcome any further confirmation of this from your dialogue with the previous owner.

The previous owner e-mailed Welsh Government officials in June 2022 to advise the property has not been on the open market since it was purchased by him and has never been advertised or promoted in any public forum.

According to the previous owner, a small number of interested parties made direct enquiries and so a set of basic particulars were produced for direct mailing to them as and when required. These particulars were produced in late 2015 and were sent to a very small number of people in 2016.

Since then, the particulars have only been sent to one individual and their agent in early 2020. The documentation was sent out for information only and with an accompanying letter noting the asking price was then £4.25 million.

We also raised concerns regarding the suitability of leasing Gilestone Farm as a site to a commercial festival company and potential environmental impact. For example, the Gilestone Farm site is known to be home to protected wildlife such as bats and curlews, is adjacent to a Special Area of Conservation and is understood to lack suitable access. During our evidence session we referred to concerns about the level of engagement and consultation by the Welsh Government on these matters. You stated that the Welsh Government would be undertaking a series of detailed checks, through the due diligence process on the detailed business plan put forward by Green Man, and that will involve consideration of environmental factors. Please could you provide further details of this process including who you will be consulting with, when and how.

The Welsh Government carried out its standard due diligence processes on the property prior to purchasing.  Further robust due diligence is currently being undertaken in relation to the full Green Man business plan and will include an assessment of any potential constraints on the activities Green Man may wish to undertake at the site, taking into account environmental and other considerations.

Once the business plan has been appraised and the due diligence process completed, a decision will be made as to whether to proceed to the next phase with Green Man. If an in-principle decision is taken to proceed, we plan to consult with a number of statutory regulatory

bodies and offer the local community the opportunity to comment on the proposals before any final decision is made. If a final decision is taken not to proceed, further options will be considered for the property, including placing it on the open market.


Future consultations around the use of the site by Green Man could include the local authority, community council, Brecon Beacons National Park Authority (as the relevant planning authority) and other stakeholders relevant to the activities proposed within the business plan.

Regarding wildlife, officials met the previous owner in August 2022 and he confirmed he was unaware of any historical evidence of curlews on the site.

I trust the above information provides the clarity that the Committee is seeking, but please do let me know if you have any further questions.  We will, of course, keep the Committee informed of relevant developments and as the Welsh Government makes decisions on the future of the site.

With best wishes.

Yours sincerely



**Andrew Slade**
Director General
Economy, Treasury and Constitution

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

26 Medi 2022

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Mark


**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2020-21**

Yn dilyn fy ngohebiaeth ar 2 Chwefror 2022 mewn ymateb i **adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2020-21**, rwy'n ysgrifennu i ddiweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd yn y meysydd a nodwyd yn argymhellion 2 a 4, sef gwariant ar gyflenwyr o gwmnïau yng Nghymru a phlastig untro. Ymdrinnir â'r rhain yn eu tro yn yr Atodiad.

Nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad ei fod yn falch o glywed bod y Comisiwn yn cynnal Adolygiad Capasiti a'i fod yn edrych ymlaen at glywed mwy o fanylion am nodau, cynnydd a chanlyniadau'r adolygiad hwn. Mae'r wybodaeth hon hefyd wedi'i chynnwys yn yr Atodiad.

Rhowch wybod i mi os oes rhagor o wybodaeth sy'n ofynnol gan aelodau'r Pwyllgor o ganlyniad i'r llythyr hwn.

Yn gywir



**Manon Antoniazzi**

cc Comisiynwyr y Senedd, y Bwrdd Gweithredol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad 1 – Argymhellion Pwyllgor - Diweddariad**

Argymhelliad 2 **Er mwyn helpu'r Comisiwn i gynyddu ei wariant ar gyflenwyr o gwmnïau yng Nghymru, rydym yn argymell ei fod yn cynnal ymarfer i rannu terfynau gwariant contract h.y. mewn dosbarthiadau llai na £10,000, llai na £50,000, llai na £100,000, llai na £500,000 a mwy na £500,000 a dadansoddi lledaeniad ariannol y contractau a ddyfernir i nodi cyfleoedd i rannu contractau mwy ac i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd cwmnïau llai yng Nghymru yn cyflwyno cynnig llwyddiannus am gontract. Byddem yn croesawu diweddariad bob chwe mis ar y cynnydd yn y maes hwn.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn cynnal dadansoddiad gwariant yn rheolaidd ar bob un o'n contractau sy'n werth mwy na £25,000.

Mae pob contract sy'n werth mwy na £25,000 yn cael ei reoli'n ganolog gan dîm Caffael y Comisiwn. Mae rheoli contractau sydd o dan y trothwy o £25,000 yn cael ei ddirprwyo i reolwr perthnasol y Comisiwn.

Ar gyfer contractau gwerth uwch, rydym bob amser yn edrych ar ddichonoldeb opsiynau i rannu'r rhain yn 'lotiau' llai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gyflenwyr llai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Enghraifft lwyddiannus, ddiweddar o'r dull hwn yw'r contract argraffu a chopïo, lle'r oeddem yn gallu dyfarnu elfennau o'r contract newydd i gwmni o Gymru.

Mae'r Comisiwn yn ymchwilio'n barhaus i ffyrdd o gynyddu gwariant gyda chyflenwyr o Gymru. Rydym yn gwneud hyn drwy ymchwil i'r farchnad, ymgysylltu'n gynnar â chyflenwyr ac fel y crybwyllwyd, drwy ystyried sut y gallwn strwythuro contractau i annog cyflenwad o Gymru. Yn ddiweddar, rydym wedi dyrannu adnodd pwrpasol o fewn y Gwasanaeth Caffael i arwain ar y gwaith hwn. Mae gennym hefyd bolisi ar 'Annog mentrau bach a chanolig'.

Rydym yn cytuno i roi diweddariad bob chwe mis i'r Pwyllgor ar y cynnydd yn y maes hwn.

**1.0 Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru**

1.1 Mae gwariant gyda chyflenwyr o Gymru wedi cynyddu o 38 y cant yn 2020/21 i 45 y cant ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22.


1.2 Rydym yn cydnabod y gall cyflenwyr o Gymru gynnig gwerth am arian a chyfrannu'n economaidd ac yn gymdeithasol i gymunedau Cymru ac rydym yn ymdrechu i roi cyfleoedd iddynt ennill ein busnes.

1.3 Rydym wedi cael tipyn o lwyddiant dros y flwyddyn wrth annog cyflenwyr o Gymru i gyflwyno cynnig am ein cytundebau ac mae rhai ohonynt wedi ennill ein busnes yn sgil hyn. Mae hyn yn awr yn dechrau treiddio drwodd i'n canran gwariant Cymreig. O'r 15 contract dros £25,000 mewn gwerth a ddyfarnwyd y llynedd, roedd 9 ohonynt i gyflenwyr o Gymru.

## 2.0 Cefndir

### Lle rydym yn gwario ein harian

2.1 Yn 2021/22, gwnaethom wario tua £10,000,000 ar brynu nwyddau a gwasanaethau, gwariwyd 45 y cant o'r swm hwn yng Nghymru. Mae bron dau draean o’r gwariant hwn ar reoli cyfleusterau neu TGCh.



**Gyda phwy rydym yn gwario ein harian.**

2.2 Yn 2021/22, dangosir isod ein prif gyflenwyr o ran gwariant. Y cyflenwr rydym yn gwario'r mwyaf gydag ef yw CBRE, ein contractwr rheoli cyfleusterau.

| **Enw'r cyflenwr** | **Gwariant** |
|---|---|
| CBRE (rheoli cyfleusterau) | £2,295,299 |
| Bowtie Television (darlledu) | £1,075,627 |
| Centerprise International (gliniaduron) | £896,745 |
| Insight Direct (DU) Limited (TGCh) | £740,538 |
| Total Support Services (glanhau) | £504,956 |
| EDF Energy | £431,238 |
| Gwasanaeth Arlwyo Charlton House | £329,517 |
| *Gwasanaethau Adeiladu DDP | £285,737 |
| Barclay Digital Services Limited (cyfathrebu) | £237,469 |
| *Blues Electrical | £235,944 |

* Wedi'i gynnwys yng ngwariant CBRE

Yn 2021/22, trosglwyddwyd 58 y cant o'r gwariant gyda CBRE i is-gontractwyr o Gymru.

2.3 Mae gwariant gyda chyflenwyr o Gymru wedi cynyddu o 38 y cant (blwyddyn ariannol 2020/21) i

45 y cant (blwyddyn ariannol 2021/22). Ceir cymhariaeth isod o wariant yn ôl categori.

Gwariant Cymreig yn ôl categori - 2020/21

| | Chwarter 1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | | Gwariant cronnol 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant cronnol | Canran gronnol |
| Darlledu | £0.00 | 0% | £84,000.00 | 9% | £84,000.00 | 5% | £83,273.00 | 2% | £251,273.00 | 3% |
| Arlwyo | £0.00 | 0% | £836.01 | 0% | £2,380.96 | 0% | £0.00 | 0% | £3,216.97 | 0% |
| Glanhau | £10,838.05 | 1% | £17,507.25 | 2% | £8,087.60 | 0% | £7,818.40 | 0% | £44,251.30 | 1% |
| Rheoli cyfleusterau | £209,029.46 | 12% | £144,817.85 | 16% | £104,192.63 | 6% | £1,100,226.44 | 31% | £1,558,266.38 | 20% |
| Dodrefn | £15,004.80 | 1% | £1,471.20 | 0% | £2,568.30 | 0% | £113,234.40 | 2% | £132,278.70 | 2% |
| TGCh | £26,125.50 | 2% | £5,760.00 | 1% | £39,495.54 | 2% | £290,249.36 | 8% | £361,630.40 | 5% |
| Arall | £100,304.89 | 6% | £69,539.44 | 8% | £78,256.42 | 5% | £124,732.91 | 3% | £372,833.66 | 5% |
| Cyfieithu | £31,167.82 | 2% | £31,500.34 | 3% | £101,316.66 | 6% | £72,789.64 | 2% | £236,774.46 | 3% |
| Cyfanswm y gwariant lleo | £392,470.52 | 23% | £355,432.09 | 39% | £420,298.11 | 26% | £1,792,324.15 | 50% | £2,960,524.87 | 38% |
| Cyfanswm y gwariant | £1,700,543.25 | | £910,344.52 | | £1,635,240.30 | | £3,600,098.02 | | £7,846,226.09 | |

Gwariant Cymreig yn ôl categori - 2021/22

| | Chwarter 1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | | Gwariant cronnol 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant cronnol | Canran gronnol |
| Darlledu | £81,264.83 | 3% | £84,000.00 | 5% | £87,000.00 | 5% | £90,200.00 | 3% | £342,464.83 | 4% |
| Arlwyo | £4,237.68 | 0% | £11,543.38 | 1% | £18,224.63 | 1% | £15,988.85 | 0% | £49,994.54 | 1% |
| Glanhau | £8,921.56 | 0% | £7,371.00 | 0% | £12,238.67 | 1% | £10,167.50 | 0% | £38,698.73 | 0% |
| Rheoli cyfleusterau | £645,858.47 | 24% | £192,738.00 | 12% | £183,707.64 | 11% | £458,857.71 | 14% | £1,481,161.82 | 16% |
| Dodrefn | £157,357.36 | 6% | £28,086.30 | 2% | £8,852.40 | 1% | £3,622.40 | 0% | £197,918.46 | 2% |
| TGCh | £117,660.54 | 4% | £254,958.92 | 16% | £134,357.02 | 8% | £595,470.12 | 18% | £1,102,446.60 | 12% |
| Arall | £89,305.24 | 3% | £101,553.27 | 6% | £245,825.83 | 15% | £317,134.81 | 9% | £753,819.15 | 8% |
| Cyfieithu | £19,839.63 | 1% | £37,202.15 | 2% | £63,025.25 | 4% | £72,196.46 | 2% | £192,263.49 | 2% |
| Cyfanswm y gwariant lle | £1,124,445.31 | 42% | £717,453.02 | 44% | £753,231.44 | 45% | £1,563,637.85 | 47% | £4,158,767.62 | 45% |
| Cyfanswm y gwariant | £2,650,165.54 | | £1,613,727.68 | | £1,668,866.53 | | £3,338,411.63 | | £9,271,171.38 | |

2.4 Mewn rhai meysydd gwariant megis ynni, meddalwedd arbenigol, (Microsoft, system integredig adnoddau dynol/cyflogres, meddalwedd drafftio deddfwriaeth, system deisebau, system cyfarpar sgrin arddangos) a chymorth ffôn, rydym yn wynebu problemau wrth ddod o hyd i gyflenwyr o Gymru.

## 3.0 Camau rydym yn eu cymryd

3.1 Mae gennym DPA corfforaethol newydd ar wariant cyflenwyr o Gymru er mwyn monitro

cynnydd yn ffurfiol.  Mae'n darged heriol, o gofio ein portffolio o gontractau a'r farchnad gyflenwi Gymreig. Y targed yw sicrhau 50 y cant o'r gwariant gyda chyflenwyr o Gymru erbyn diwedd y Chweched Senedd.

| **Targed** | 50% |
|---|---|
| **Coch** | < 44% |
| **Oren** | 45% i 49% |
| **Gwyrdd** | > 50% |

3.2 Dadansoddi'r farchnad – rydym yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â chyflenwyr o Gymru cyn ymarferion tendro. Rydym wedi neilltuo amser yn y broses gaffael i wneud hyn.

3.3 Defnyddio fframweithiau cenedlaethol – Nid yw cyflenwyr o Gymru, sef busnesau bach a chanolig yn bennaf bob amser wedi'u cynrychioli'n dda ar fframweithiau ledled y DU; felly, eithriad yn unig yw defnyddio fframweithiau ledled y DU. Rydym bob amser yn ystyried fframweithiau Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) Llywodraeth Cymru cyn edrych ar drefniadau ledled y DU. Rydym yn hysbysebu ein cyfleoedd contract dros £25,000 ar GwerthwchiGymru.

3.4 Rydym yn cymryd amser i esbonio ein prosesau caffael i gyflenwyr er mwyn eu hannog i gyflwyno cynnig am ein busnes.

3.5 Rydym yn sicrhau bod ein prif gontractwyr yn darparu cyfleoedd i gyflenwyr o Gymru fel rhan o'u cadwyni cyflenwi.

3.6 Rydym yn achub ar y cyfle i asesu'r holl gontractau sydd i'w hadnewyddu i fesur y potensial ar gyfer cyflenwad o Gymru, gan gynnwys opsiynau i ailstrwythuro contractau pan fo modd.

3.7 Rydym hefyd yn edrych ar gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned fusnes ehangach, megis Siambrau Cymru, i drafod ein strategaeth a chynyddu ein rhwydwaith.

3.8 Serch hynny, mae'n rhaid i ni gofio, o ran y broses dendro, fod y gyfraith yn ein rhwymo i drin yr holl gyflenwyr yn gyfartal, ni waeth lle y maent, ac i fod yn gwbl dryloyw gyda'n penderfyniadau. Felly, er gwaethaf yr holl waith rydym yn ei wneud

ymlaen llaw yn ymgysylltu â chyflenwyr o Gymru a'u hannog i gyflwyno cynnig, ni allwn sicrhau y byddant yn llwyddiannus yn y pen draw.

**4.0 Rhagolwg**

4.1 Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i fonitro ein perfformiad yn y maes hwn ac yn archwilio ffyrdd eraill y gallwn barhau i ymgysylltu â chyflenwyr o Gymru a'u hannog i gyflwyno cynnig am gontractau.

4.2 Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd.

4.3 Gwasgariad contractau a ddyfarnwyd y llynedd yn ôl gwerth contract

| **Gwerth y contract** | **Nifer y contractau** |
|---|---|
| Dros £500,000 | 10 |
| <£500,000 | 24 |
| <£100,000 | 13 |
| <£50,000 | 87 |
| <£10,000 | 600 |

**Argymhelliad 4: Bod y Comisiwn yn darparu diweddariad bob chwe mis ar y defnydd o blastig untro.**

**Ymateb**:

Mae Comisiwn y Senedd yn cymryd yr angen i leihau plastigion untro yn ei weithrediadau o ddifrif ac yn croesawu'r cyfle hwn i ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor.

Yn ddiweddar rydym wedi penodi contractwr arlwyo newydd ac rydym eisoes yn gweithio gydag ef i sicrhau y cynhelir y safonau uchel a bod cyn lleied â phosibl o blastig ar gael. Mae'r fanyleb arlwyo yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gefnogi'r Senedd yn ei gwaith i osgoi'r defnydd o eitemau plastig untro ac eitemau untro eraill pan fo hynny'n bosibl.

Rydym hefyd yn ymwybodol o ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i atal eitemau plastig untro rhag cael eu darparu yng Nghymru ac rydym yn falch o gadarnhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r rheolau newydd fel y maent ar hyn o bryd. Nid ydym

yn dosbarthu platiau plastig, bagiau siopa, ffyn cotwm ac yn sicr nid deiliaid balŵn! Byddwn yn parhau i fonitro'r ddeddfwriaeth sydd i ddod, yn ogystal â mentrau allanol eraill, ac rydym bob amser yn agored i ragor o awgrymiadau i wella.

Mae’r camau gweithredu gwella a restrwyd gennym yn y diweddariad diwethaf, a chynnydd yn eu herbyn, i'w gweld isod:

| **Cam gweithredu** | **Cynnydd** | **Y camau nesaf** |
|---|---|---|
| Sicrhau bod poteli ailddefnyddiadwy ar gael i Aelodau SIC ac yna'r holl staff | Darparwyd poteli â brand y Senedd y gellir eu hailddefnyddio i Aelodau SIC newydd. | Cyflwyno’r poteli i’r staff drwy fannau arlwyo. |
| Hyrwyddo'r defnydd o ffynhonnau yfed | Wedi'i wneud yn fewnol gyda staff dros yr haf | Atgoffa’r staff wrth iddynt ddychwelyd i'r swyddfa ar ôl y toriad. Mwy o arwyddion. |
| Ymchwilio i ddichonoldeb safon rheoli di-blastig | Wedi’i gwblhau - ystyrir ei fod yn anaddas ar gyfer maint yr ymgyrch; mae’n fwy ar gyfer y sector gweithgynhyrchu | Dim rhagor o gamau ar hyn o bryd ond bydd yn parhau i gael ei adolygu. |
| Ysgrifennwch at y cyflenwyr am yr ymrwymiad ar blastigion a hysbysu tendrwyr newydd o’r angen i leihau plastig ar y safle. | Wedi’i gwblhau ar gyfer y cyflenwyr mawr - gofyn iddynt leihau’r plastig sy'n cael ei anfon atom. Wedi'i ymgorffori mewn dogfennau manyleb contract diweddar pan fo hynny'n berthnasol, gan gynnwys un ar gyfer deunyddiau marchnata. | Bydd yn parhau i gael ei weithredu gyda chyflenwyr newydd. |

**Adolygiad capasiti – nodyn ychwanegol:** **manylion am nodau, cynnydd a chanlyniadau'r adolygiad hwn.**

Yn 2021, cynhaliwyd adolygiad capasiti i sicrhau y gallai'r Comisiwn barhau i gyflawni ei flaenoriaethau strategol mewn modd cynaliadwy yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Bwriadwyd i'r adolygiad wneud y canlynol:

- Deall y dystiolaeth ar ein capasiti sefydliadol a'r hyn sy'n sbarduno'r strwythurau a defnydd adnoddau presennol;
- Archwilio'r galw hysbys a'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol;
- Archwilio pa mor effeithlon ac effeithiol rydym wrth ddarparu ein gwasanaethau i'r Aelodau, busnes y Senedd, dinasyddion a ni ein hunain;
- Asesu'r cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon, effeithiol, hyblyg, cydnerth a gwireddu arbedion;
- Darparu sail dros gyfiawnhau'r adnoddau – rhai ariannol, dynol a seilwaith – y rhai sydd gennym a'r rhai y mae arnom eu hangen.

Cyflwynwyd adroddiad yr adolygiad yn haf 2021, gan wneud 12 o argymhellion. Y penawdau cryno a geir isod. Cafodd y gwaith hwn, yn dilyn penderfyniad gan Gomisiwn y Senedd ei gyfuno ac mae strategaeth a rhaglen gynhwysfawr Ffyrdd o Weithio yn bwrw ymlaen ag ef.

| **Crynodeb o argymhellion adolygiad capasiti 2021** | |
|---|---|
| **Cyf** | **Pennawd argymhelliad** |
| 1 | Diwallu'r galw hybrid/digidol yn gynaliadwy |
| 2 | Agwedd ystwyth at staffio |
| 3 | Adolygu adnoddau ar draws/rhwng gwasanaethau |
| 5 | Adolygu'r broses ar gyfer dogfennau awdurdodi recriwtio |
| 5 | Cyrchu talent allanol |
| 6 | Rheoli'r adnoddau rhan-amser sy'n cael eu rhyddhau |
| 7 | Gwneud y gorau o gymorth yr Aelodau |
| 8 | Cadarnhau'r galw am wasanaeth |
| 9 | Dull o dargedu buddsoddiad |

| Crynodeb o argymhellion adolygiad capasiti 2021 | |
|---|---|
| 10 | Addasu llinellau’r gyllideb a thargedu cyllidebu sylfaen sero |
| 11 | Defnydd gwell o dechnoleg |
| 13 | Oriau hyblyg |

Ym mis Gorffennaf 2022, yng nghyd-destun y cynigion y cytunwyd arnynt ar gyfer Diwygio'r Senedd, sy'n cynnwys goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer Comisiwn y Senedd, gofynnodd y Comisiwn i swyddogion gynnal adolygiad arall o gapasiti ac adnoddau presennol y Comisiwn a chyflwyno 'Strategaeth Rheoli Adnoddau' ddrafft i'r Comisiwn yn yr hydref.

Dyma’r prif fecanweithiau a mentrau sy’n sail i'r adolygiad capasiti arall:

- asesiad o effaith debygol cap ar swyddi sefydledig a/neu gap cyfwerth ag amser llawn ar staff presennol y Comisiwn (i ystyried a ellir cynnwys unrhyw dwf staffio sydd ei angen i gefnogi gwaith trosiannol Diwygio'r Senedd o fewn nifer y staff presennol heb fod angen twf net yn nifer y swyddogion);
- asesiad o effaith debygol ystod o dargedau effeithlonrwydd ar gyfer pob gwasanaeth;

Mae'r camau hyn wedi’u datblygu dros gyfnod toriad yr haf drwy broses adolygu fanwl a gynhaliwyd gan holl benaethiaid gwasanaeth y Comisiwn.

Un agwedd allweddol ar yr adolygiad mewnol fydd cynnal asesiad o’r effaith ar ddewisiadau y gellir eu hystyried o ran y gwasanaethau a ddarperir i'r Aelodau.

Bydd Strategaeth Rheoli Adnoddau ddrafft, a fydd yn gwneud argymhellion ar y rheolaeth gadarn ar gyfer heriau adnoddau a chapasiti'r Comisiwn dros y cyfnod tan y Seithfed Senedd, yn cael ei chyflwyno i'r Comisiwn ddiwedd mis Medi 2022.

Ar ben hynny, bydd rhaglen newydd y Comisiwn, sef Ffyrdd o Weithio, gyda threigl amser, yn pennu ac yn cyflawni ystod o amcanion strategol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau'r Comisiwn yn y dyfodol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3161A2022

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Baragraff 19(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n darparu, os yw Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn y byddai er budd y cyhoedd i ddwyn i sylw'r cyhoedd fater sy'n dod at ei rybudd yng nghwrs archwiliad o gyfrifon archwiliadwy, gall yr Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar y mater hwnnw a chyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl paratoi adroddiad o'r fath yn gosod yr adroddiad gerbron y Senedd. Rwyf wedi penderfynu cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd oherwydd yn fy marn i, roedd y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniadau ynglŷn â threfniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol a phenderfynu gwneud taliad iddi ar derfynu ei chyflogaeth yn brin o dryloywder ac nad oedd yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu da. Rwyf o'r farn y dylai'r ffeithiau ynglŷn â'r mater hwn gael eu tynnu at sylw'r cyhoedd a'r Senedd.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â’r adroddiad hwn, yr wyf i a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Negeseuon allweddol | 4 |
| Rhan 1: Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd | 8 |
| Rhan 2: ‘Ymddeoliad Rhannol’ yr Ysgrifennydd Parhaol o 1 Ebrill 2018 a newidiadau i’w threfniadau gweithio | 10 |
| Rhan 3: Taliad i’r Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2021 | 17 |

# Negeseuon allweddol

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Ar 4 Awst 2022, gwnes i amodi fy marnau archwilio ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' a 'rheoleidd-dra' Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21 mewn perthynas â thaliad 'allgontractiol'[1] o £39,123 a wnaeth Llywodraeth Cymru i'r Cyn-Ysgrifennydd Parhaol – Y Fonesig Shan Morgan[2] – pan derfynwyd ei chyflogaeth ar 31 Hydref 2021. Gwnes i gynnwys datganiad 'mater arall' yn fy nhystysgrif archwilio hefyd i dynnu sylw at y datgeliadau a wnaed yn Natganiad Llywodraethu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r taliad hwn. Yr wyf yn ystyried nad yw datgeliadau mewn perthynas â'r taliad a wnaed i'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyson â'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad.

2 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr fod y £39,123 yn rhan o gyfanswm taliad o £80,519 – heb gynnwys cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer y mis olaf – a oedd yn cynnwys tair elfen:

- Taliad yn lle rhybudd o £31,843.
- Elfen gwyliau blynyddol heb eu cymryd o £9,553.
- Taliad allgontractiol o £39,123 am ddiwrnodau ychwanegol a weithiwyd.

3 Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bod £30,289 o'r taliad o £39,123 yn ymwneud â diwrnodau ychwanegol a weithiwyd ym mlynyddoedd cyfrifyddu 2019-20 a 2020-21 yn dilyn ymddeoliad rhannol yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Ebrill 2018.

4 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr bod £30,289 wedi'i gynnwys fel croniad yn natganiadau ariannol 2020-21. Nid wyf wedi gallu penderfynu pa un a yw'r gwariant yn y datganiadau ariannol yn berthnasol gywir (barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch'). Yn fwy penodol, nid wyf wedi gallu cael tystiolaeth

[1] Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn nodi'r prif egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau y mae'n nodi y dylent fod yn gymwys ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae'n nodi bod, 'taliadau allgytundebol yn daliadau yr ymddengys eu bod yn rhoi rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru neu ei chyrff cyhoeddus y gallai'r llysoedd ei chadarnhau, er nad yw'r taliadau hynny yn gyfreithiol ddyledus o dan gontract. Fel arfer, maent yn codi o ganlyniad i weithredu neu ddiffyg gweithredu mewn perthynas â chontract. Gall taliadau fod yn rhai allgytundebol hyd yn oed pan fo rhywfaint o amheuaeth ynghylch yr atebolrwydd i dalu, ee lle mae'r contract yn darparu ar gyfer cymrodeddu ond deuir i gytundeb hebddo. (Mae taliad a wneir o ganlyniad i ddyfarniad cymrodeddu yn un cytundebol.)'

[2] Oni nodir yn wahanol, lle'r ydym yn cyfeirio yn yr adroddiad hwn at 'yr Ysgrifennydd Parhaol', y Cyn-Ysgrifennydd Parhaol yr ydym yn ei olygu. Roedd y Fonesig Shan Morgan yn aelod parhaol o'r uwch wasanaeth sifil a benodwyd ar gontract am gyfnod penodol o bum mlynedd o 6 Chwefror 2017 tan 5 Chwefror 2022 ond fe adawodd y rôl ar 31 Hydref 2021 yn dilyn penodi ei holynydd, Dr Andrew Goodall. Yn ystod cyfnod ei chyflogaeth, ni wnaed unrhyw newidiadau i gontract cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol.

archwilio ddigonol, briodol am drefniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2018 ac o ganlyniad pa un a oedd gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i gael y taliad. Nid wyf wedi gallu cadarnhau:

- ar ba sail y gwnaed y taliad;
- sut y cyfrifwyd y taliad;
- a oedd rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i wneud y taliad; ac
- a yw wedi'i gynnwys, neu a ddylai gael ei gynnwys, yn natganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

5 Ni chadwodd Llywodraeth Cymru gofnodion cydoesol o'i rhesymau dros wneud y taliad, y rhesymeg dros y swm a dalwyd na thystiolaeth o bwy a awdurdododd y taliad. Felly, nid wyf wedi gallu argyhoeddi fy hun bod y taliad wedi'i awdurdodi'n briodol yn unol â'r fframwaith awdurdodau sy'n llywodraethu'r gwariant a pha un a ysgwyddwyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd (barn archwilio ynglŷn â 'rheoleidd-dra').

6 O ystyried yr ansicrwydd hwn, yr wyf hefyd wedi methu â chadarnhau bod y Datgeliadau Atebolrwydd a archwiliwyd a'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu ac yn berthnasol gywir o fewn datganiadau ariannol 2020-21.

7 Mae'r Datganiad Llywodraethu'n cynnwys esboniad Llywodraeth Cymru pam y gwnaed y taliad o £39,123 i'r Cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Fodd bynnag, nid ategir yr esboniad hwn gan dystiolaeth gydoesol. I'r graddau y mae dogfennaeth gydoesol yn bodoli mewn perthynas â'r taliad hwn, nid yw'n ategu'r sylwebaeth a nodir yn y Datganiad Llywodraethu.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhagor o fanylion am amgylchiadau'r elfen o'r taliad a arweiniodd at amodi'r barnau archwilio. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am yr elfennau eraill o'r taliad. Mae fy archwilwyr wedi archwilio'r holl dystiolaeth a gwybodaeth y trefnwyd eu bod ar gael iddynt hwy mewn perthynas â'r materion y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad hwn ac mae'r casgliadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth honno. Mae fy archwiliad o ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yn dal i fynd rhagddo. Byddaf yn darparu barn yn ffurfiol ar yr elfennau o'r taliad sy'n ymwneud â datganiadau ariannol 2021-22 pan fydd yr archwiliad hwnnw wedi'i gwblhau.

9 Cyn cwblhau'r adroddiad hwn, fe wnaeth fy archwilwyr a minnau wahodd ac ystyried sylwadau gan Lywodraeth Cymru a chynrychiolydd y Cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Gwnes i hefyd ystyried sylwadau gan Swyddfa'r Cabinet a MyCSP[3] ar ddetholiadau perthnasol o'r adroddiad drafft.

10 Er bod yr adroddiad hwn yn darparu esboniad pellach o'm pryderon ynghylch y taliad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'w Chyn-Ysgrifennydd Parhaol, nid yw, ac nid yw wedi'i fwriadu i fod, yn sylwebaeth ar berfformiad yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl na'i hymroddiad i'w dyletswydd. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi datgan na fu ganddi hi unrhyw ymwneud o gwbl â negodi'r swm a dalwyd iddi gan Lywodraeth Cymru pan derfynwyd ei chyflogaeth.

[3] MyCSP yw Gweinyddwr y Cynllun ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

## Canfyddiadau allweddol

11 Yn **Rhan 1** o'r adroddiad hwn, yr wyf yn nodi nad oedd gan Lywodraeth Cymru drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd a oedd wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd Parhaol. Yn fy nhyb i, fe arweiniodd hyn at ddiffyg eglurder ynghylch sut y dylai penderfyniadau pwysig mewn perthynas â chyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol fod wedi cael eu gwneud.

12 Yn **Rhan 2** yr wyf yn nodi nad oedd newidiadau i drefniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol yn gwbl gyson â'r fframwaith polisi ac na chawsant eu dogfennu'n ddigonol i ddangos eu bod wedi cael eu gwneud ac yr adroddwyd arnynt mewn modd priodol. Yn fwy penodol:

- nid oedd y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru brosesu'r cais am ymddeoliad rhannol yn gwbl gyson â'i fframwaith polisi;
- mae dogfennaeth annigonol yn golygu nad wyf yn gallu cadarnhau bod newidiadau i drefniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â'i hymddeoliad rhannol wedi cael eu gwneud ac yr adroddwyd arnynt mewn modd priodol; ac
- mae gennyf bryderon tebyg ynghylch trefniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2019 a oedd hefyd, yn rhannol, y tu hwnt i gwmpas polisïau Llywodraeth Cymru.

13 Yn **Rhan 3** yr wyf yn nodi nad wyf wedi gallu argyhoeddi fy hun bod y penderfyniad i wneud taliad o £80,519 i'r Ysgrifennydd Parhaol pan derfynwyd ei chyflogaeth wedi cael ei wneud yn briodol a, hyd yma, y rhoddwyd cyfrif yn briodol amdano. Yn fwy penodol:

- **Taliad yn lle rhybudd**: Yn yr amgylchiadau a oedd yn bodoli yn ôl fy nealltwriaeth pan adawodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei chyflogaeth, nid oedd hawl ganddi i gael taliad yn lle rhybudd dan delerau ei chontract, ond ni fyddai wedi bod yn afresymol iddi geisio taliad diswyddo fel digollediad am derfynu ei chyflogaeth.
- **Gweddill y gwyliau blynyddol**: Y sail i weddill y gwyliau blynyddol heb eu cymryd a'r cyfrifiad ar gyfer y taliad oedd bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol drefniant gweithio llawn-amser wedi iddi gymryd ymddeoliad rhannol a'i bod wedi cronni gwyliau blynyddol yn ystod cyfnod rhybudd.
- **Taliad allgontractiol**: Y sail i'r taliad oedd bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol drefniant gweithio rhan-amser ar ôl iddi gymryd ymddeoliad rhannol. Roedd nifer y diwrnodau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliad yn fympwyol a heb sail briodol. Ac nid oes dogfennaeth gydoesol sy'n dangos tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

14 Nid wyf yn gwneud argymhellion penodol yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod bod fy archwiliad o'r mater hwn wedi

amlygu'r angen am brosesau gwell mewn perthynas â thaliadau i uwch aelodau o staff. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr ei bod yn derbyn nad oedd digon o ddogfennaeth gydoesol yn nodi'r rhesymau pam y rhoddwyd cymeradwyaeth ar amryw gamau, y gallai cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cabinet y DU fod wedi bod yn fwy amserol ac yn fwy manwl a bod anghysonderau a diffygion wedi bod yn y ffordd y cyfrifwyd hawl y Cyn-Ysgrifennydd i wyliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro camau gweithredu y bydd yn eu cymryd wrthyf i:

- dogfennaeth well ar gyfer cytundebau y doir iddynt yn yr amgylchiadau hyn fel bod trywydd archwilio digonol.
- adolygu cylch gorchwyl ei Phwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fel bod cytundeb y Pwyllgor, neu o leiaf y Cadeirydd, yn cael ei geisio ar gyfer taliadau ymadael unigol neu newidiadau arwyddocaol eraill i delerau ac amodau ar gyfer staff ar lefel Cyfarwyddwyr ac uwch.
- cynhyrchu set wedi'i dogfennu o brosesau, y cytunwyd arnynt gyda Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, ar gyfer ymdrin ag unrhyw faterion Adnoddau Dynol arwyddocaol sy'n codi mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Parhaol neu aelodau eraill o staff mewn swyddi uchel iawn yn Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch hysbysu partïon â buddiant eraill.
- gweithio gyda Swyddfa Cabinet y DU i ddatblygu canllawiau penodol ar gyfer rheolaeth llinell ar ysgrifenyddion parhaol yn y cyd-destun datganoledig[4].

[4] Dywedodd Swyddfa'r Cabinet wrth fy archwilwyr, yn niffyg datganiad eglur o atebolrwydd, ei bod yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio protocol sy'n nodi'n fwy eglur beth yw rôl Ysgrifennydd y Cabinet mewn rheolaeth llinell ar ysgrifenyddion parhaol y gweinyddiaethau datganoledig.

# Rhan 1: Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd

## Nid oedd gan Lywodraeth Cymru drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd a oedd wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd Parhaol

15 Mae swydd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru'n dwyn rôl Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gweinidogion Cymru[5] a chyfrifoldeb personol am ddiogelu'r arian cyhoeddus y maent wedi cael cyfrifoldeb amdano.

16 Deiliad y swydd yw Pennaeth Gwasanaeth Sifil Cymru hefyd ac mae ganddo/ganddi gyfrifoldeb a ddirprwywyd gan Brif Weinidog Cymru am swyddogaethau personél, gan gynnwys materion cyflog mewn perthynas â Gwasanaeth Sifil Cymru[6]. Nid yw'r trefniant dirprwyo hwn yn ymestyn i faterion sy'n ymwneud â'u cyflog a thelerau cytundebol hwy eu hunain gan y byddai hyn yn wrthdaro buddiannau cynhenid. Felly mae trefniadau cyflog a phersonél yn wahanol i weision sifil eraill yng Nghymru. Er enghraifft:

- penodwyd yr Ysgrifennydd Parhaol yn dilyn hysbysebu'r swydd yn gyhoeddus a phroses ddethol gan banel a oedd yn cynnwys Pennaeth Gwasanaeth Sifil y DU, Ysgrifennydd Parhaol un o adrannau Llywodraeth y DU, un o gyfarwyddwyr anweithredol Llywodraeth Cymru ac aelod allanol o'r panel.
- yn gyffredin ag Ysgrifenyddion Parhaol eraill ledled y DU, nid yw cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru ond gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol Ysgrifenyddion Parhaol Swyddfa'r Cabinet. Rhaid i unrhyw newid i gyflog gael ei gymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet.
- rhoddodd Swyddfa Cabinet y DU gontract ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Parhaol a hwnnw'n nodi'r prif delerau cytundebol. Mae contract yr Ysgrifennydd Parhaol yn gontract safonol ar gyfer holl ysgrifenyddion parhaol y DU. Y partïon i'r contract oedd yr Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Weinidog Cymru (fel yr awdurdod penodi ar ran y Goron). Llofnodwyd y contract gan Ysgrifennydd Cabinet y DU ar ran Prif Weinidog Cymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn gweithredu yng nghymhwyster rheolwr llinell yr Ysgrifennydd Parhaol.

17 Roedd contract cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol yn nodi prif delerau'r gyflogaeth honno ac, ynghyd â pholisïau a chanllawiau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, dyma oedd telerau ac amodau cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol. Byddai angen i Lywodraeth Cymru fod wedi cytuno ar newidiadau i'r prif delerau, gan gynnwys materion a oedd yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol, gyda Swyddfa'r

[5] Adran 129(6) Deddf Llywodraeth Cymru 2006

[6] O dan Ddeddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992

Cabinet. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ymdrin â materion personél eraill – y rhai nad oeddent wedi'u cynnwys yn y contract ysgrifenedig – yn unol â'i pholisïau Adnoddau Dynol cytunedig. Mewn geiriau eraill, nid oedd lle i Lywodraeth Cymru gyflwyno trefniadau Adnoddau Dynol ansafonol mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Parhaol y tu allan i'r polisïau a oedd yn berthnasol i holl staff Llywodraeth Cymru.

18 Er gwaethaf cymhlethdodau'r amryw elfennau o atebolrwydd a oedd yn gysylltiedig â rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu Llywodraeth Cymru ei hun a'r atebolrwydd am y rôl i Ysgrifennydd Swyddfa'r Cabinet a Phrif Weinidog Cymru, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi dogfennu'n glir:

- pa benderfyniadau mewn perthynas â chyflogaeth Ysgrifennydd Parhaol a gedwir yn ôl gan Swyddfa'r Cabinet, a pha rai sy'n benderfyniadau i Lywodraeth Cymru eu gwneud.
- lle mae penderfyniadau'n rhai i Lywodraeth Cymru eu gwneud, sut y dylai'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud a'u cymeradwyo. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y byddai cynnwys gweision sifil isradd mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â thelerau cyflogaeth Ysgrifennydd Parhaol gan gynnwys cyflog, patrwm gweithio a hawl i wyliau'n golygu gwrthdaro buddiannau cynhenid.
- sut y dylai cyfrifoldebau 'rheolaeth llinell' gael eu cyflawni, a chan bwy. Er enghraifft, trefniadau rheoli perfformiad, awdurdodi a chadw cofnodion mewn perthynas â gwyliau a gweithio hyblyg.

19 Fe arweiniodd hyn, yn fy nhyb i, at ddiffyg eglurder ynghylch sut y dylai penderfyniadau pwysig mewn perthynas â chyflogaeth Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fod wedi cael eu gwneud. Dyma'r cyd-destun ar gyfer penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thaliad a wnaed i'r Ysgrifennydd Parhaol pan derfynwyd ei chyflogaeth. Fel a nodwyd ym **mharagraff 14**, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cydnabod yr angen am brosesau gwell ar gyfer taliadau i uwch aelodau o staff.

# Rhan 2: ‘Ymddeoliad Rhannol’ yr Ysgrifennydd Parhaol o 1 Ebrill 2018 a newidiadau i’w threfniadau gweithio

## Nid oedd newidiadau i drefniadau gweithio’r Ysgrifennydd Parhaol yn gwbl gyson â’r fframwaith polisi ac ni chawsant eu dogfennu’n ddigonol i ddangos eu bod wedi cael eu gwneud ac yr adroddwyd arnynt mewn modd priodol

### Nid oedd y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru brosesu’r cais am ymddeoliad rhannol yn gwbl gyson â’i fframwaith polisi

20 Roedd telerau ac amodau cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol o 6 Chwefror 2017 yn cynnwys:

- cyflog sylfaenol o £160,000 y flwyddyn. Unrhyw godiad cyflog i gael ei bennu gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Ysgrifenyddion Parhaol. Cyflog i gael ei adolygu’n flynyddol gan hysbysu’n ysgrifenedig ynghylch unrhyw newidiadau.
- gofyniad i weithio isafswm o 42 awr dros wythnos pum niwrnod, gan gynnwys egwylion dyddiol o un awr ar gyfer prydau bwyd.
- gofyniad fel uwch was sifil i weithio pa bynnag oriau ychwanegol sy’n rhesymol ac yn angenrheidiol o bryd i’w gilydd heb unrhyw hawl i dâl goramser.
- hawl i 30 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol.
- bod â hawl i ymgeisio am drefniadau gweithio rhan-amser neu hyblyg – er bod yr hysbyseb ar gyfer y rôl yn 2016 wedi nodi mai llawn-amser oedd y patrwm gwaith ac nad oedd yn addas i ymgeiswyr a oedd yn dymuno gweithio’n rhan-amser.

21 Ar ryw adeg cyn mis Chwefror 2018, mynegodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddyhead i ymddeol yn rhannol dan y Rheolau ar gyfer Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Pensiynau’r Gwasanaeth Sifil wedi cyhoeddi canllaw i aelodau ar ymddeol yn rhannol sy’n egluro’r gofynion cymhwystra ar gyfer cyflogeion sy’n dymuno ymddeol yn rhannol. Mae’r canllaw’n nodi fel a ganlyn:

‘… partial retirement is allowed only if you agree with your employer to reshape your job so that your salary (together with any permanent pensionable allowances) reduces by at least 20%. You and your employer should expect the job reshaping to apply through to your final retirement. This is the equivalent of reducing your hours from full-time (5 days a week) to 4 days a week. Alternatively, you could agree to move to a lower-paid job. This could be a lower grade job or one which has fewer responsibilities than your current one.’

22 Y rheswm pam fod ail-lunio swydd yn ofynnol i fod yn gymwys i ymddeol yn rhannol yw mai diben bwriadedig ymddeoliad rhannol yw galluogi cyflogeion i bontio'n raddol o gyflogaeth i ymddeoliad. Mae canllawiau a gweithdrefnau ymddeol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016 hefyd yn nodi bod:

'… ymddeol yn rhannol, os cytunir ar hynny, yn caniatáu i gyflogeion gymryd peth neu'r cyfan o'u pensiwn a pharhau i weithio ar sail oriau gostyngol neu radd is y tu hwnt i oedran pensiwn a symud yn raddol o waith i ymddeoliad.'

23 Ar 12 Chwefror 2018, fe gwblhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol a Llywodraeth Cymru gais i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am ymddeoliad rhannol. Roedd y ffurflen gais yn nodi y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymryd gostyngiad o 20% yn ei chyflog, yn parhau i weithio'n llawn-amser ac y byddai ei rôl yn cael ei hail-lunio. Cafodd y cais ei dderbyn gan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac fe ddechreuodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar ymddeoliad rhannol o 1 Ebrill 2018 a chafodd fynediad at ei buddion pensiwn a gronnwyd.

24 Fel a nodwyd ym **mharagraff 16**, cafodd contract ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Parhaol ei roi gan Swyddfa'r Cabinet a'i lofnodi gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ran Prif Weinidog Cymru. Yn fy nhyb i, roedd angen i unrhyw newidiadau diweddarach i'r prif delerau hyn – gan gynnwys materion megis cyflog, oriau gwaith a hawl i wyliau a oedd yn deillio o ymddeol yn rhannol – gael eu cytuno gan Ysgrifennydd y Cabinet yn dilyn trafod gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru. Yn fy nhyb i, ni chafodd y cais ei gymeradwyo'n briodol am y rhesymau a nodir isod.

25 Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cadarnhau, o ran cais yr Ysgrifennydd Parhaol am ymddeoliad rhannol y dylai newid o'r fath mewn trefniadau gweithio fod wedi cael ei gytuno gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd ymlaen llaw, a 'had he been consulted, the matter should have been referred to [his] team which would have ensured that the respective HR teams in the Cabinet Office … and Welsh Government … would have been able to work together to progress matters appropriately'. Fodd bynnag, dywedodd Swyddfa'r Cabinet wrth fy archwilwyr na chafodd Ysgrifennydd y Cabinet ei hysbysu ar adeg y cais ac mai dim ond ym mis Awst 2019 mewn gohebiaeth a oedd i'w gweld yn anffurfiol a phersonol ('informal, personal correspondence') oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol y daeth yn ymwybodol o'r ymddeoliad rhannol. Felly ni chafodd yr ohebiaeth ei throsglwyddo i'r tîm perthnasol yn Swyddfa'r Cabinet.

26 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Prif Weinidog Cymru ar y pryd wedi cael ei wneud yn ymwybodol o ymddeoliad rhannol yr Ysgrifennydd Parhaol cyn y cais neu'r penderfyniad i gytuno ag ef. Fel a nodir ym **mharagraff 32**, cafodd Prif Weinidog Cymru ei hysbysu wedyn gan yr Ysgrifennydd Parhaol trwy e-bost ym mis Awst 2019 ynghylch yr ymddeoliad rhannol. Roedd yr e-bost yn pwysleisio nad oedd ei horiau gwaith wedi newid.

27 Mae canllawiau a gweithdrefnau ymddeol Llywodraeth Cymru dyddiedig Mai 2016 yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n ymdrin â cheisiadau am ymddeoliad rhannol. Mae darpariaethau'r polisi'n cynnwys y canlynol:

- ‘rhaid i geisiadau [am ymddeoliad rhannol] gael eu gwneud trwy’r rheolwr llinell i ofyn am ystyried ymddeoliad rhannol’. Yn achos yr Ysgrifennydd Parhaol ni chafodd Ysgrifennydd y Cabinet ei hysbysu ynghylch y cais am ymddeoliad rhannol er ei fod yn gweithredu mewn cymhwyster fel rheolwr llinell yr Ysgrifennydd Parhaol.
- ‘gan bod ymddeol yn rhannol yn golygu newid mewn oriau, os cytunir ar ymddeoliad rhannol byddai’r broses ar gyfer newid oriau’n cael ei dilyn hefyd’. Mae’r broses y cyfeirir ati’n golygu cwblhau ffurflen ‘newid oriau’. Nid yw fy archwilwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod ffurflen o’r fath wedi cael ei chwblhau.
- ‘bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y rheolwr llinell pa un a ganiateir cais ar sail anghenion busnes ac felly nid yw cytundeb wedi’i warantu’. Nid yw fy archwilwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ddangos sut y cafodd na pha un a gafodd cais yr Ysgrifennydd Parhaol ei ystyried yng ngoleuni anghenion busnes, ac nid wyf yn glir sut yr oedd hyn yn bosibl o ystyried na chafodd Ysgrifennydd y Cabinet na Phrif Weinidog Cymru eu cynnwys yn y broses.

## Mae dogfennaeth annigonol yn golygu nad wyf yn gallu cadarnhau bod newidiadau i drefniadau gweithio’r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â’i hymddeoliad rhannol wedi cael eu gwneud ac yr adroddwyd arnynt mewn modd priodol

28 Fel a nodwyd ym **mharagraffau 21 a 22**, i fod yn gymwys ar gyfer ymddeoliad rhannol dan reolau’r cynllun pensiwn, rhaid i swydd yr aelod o’r cynllun pensiwn gael ei hail-lunio naill ai trwy leihau’r oriau neu drwy leihau’r cyfrifoldebau gan arwain at ostyngiad mewn cyflog o 20% o leiaf. Roedd y darpariaethau ar gyfer ymddeol yn rhannol wedi’u bwriadu i alluogi’r cyflogai i bontio’n raddol o gyflogaeth i ymddeoliad.

29 Mae Llywodraeth Cymru’n haeru ei bod wedi ail-lunio swydd yr Ysgrifennydd Parhaol pan gymerodd ymddeoliad rhannol trwy gytuno y dylai gymryd diwrnod ychwanegol o wyliau bob mis. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr bod y newid wedi cael ei gymeradwyo gan eu Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol a bod ganddo yntau’r awdurdod angenrheidiol i wneud hynny. Am y rhesymau a nodwyd ym **mharagraffau 24 i 26**, nid wyf yn ystyried bod y newid y mae Llywodraeth Cymru’n haeru iddi ei wneud i drefniadau gweithio’r Ysgrifennydd Parhaol wedi’i gymeradwyo’n briodol. Ar ben hynny, yn fy nhyb i mae gwrthdaro buddiannau amlwg os oedd rhywun a oedd yn isradd i’r Ysgrifennydd Parhaol yn gallu awdurdodi newidiadau i delerau ei chontract.

30 Wrth i ni gynnal yr archwiliad hwn, dywedodd cynrychiolydd y Cyn-Ysgrifennydd Parhaol y canlynol wrth fy archwilwyr am yr Ysgrifennydd Parhaol: ‘decided to apply for partial retirement for personal financial reasons. She had reached pensionable age after spending her whole career in the civil service accumulating pension benefits and it was in her judgment personally advantageous to take her pension to avoid and cease accruing pension’ a’i bod hi hefyd wedi ymgeisio

‘(applied) for partial retirement knowing full well that the demands of a Permanent Secretary’s role could only be undertaken effectively by working regularly over and above the minimum full-time hours in her contract, as she had been doing before her application and, indeed, as she had done in the previous senior roles which she had undertaken in the civil and diplomatic service’.

31 Ymddengys i mi o’r datganiadau hyn bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn ymwybodol na allai ei rôl gael ei hail-lunio mewn ffordd a fyddai’n ei galluogi i bontio’n raddol o gyflogaeth i ymddeoliad, ac mae felly’n bwrw amheuaeth pa un a oedd yr ymddeoliad rhannol o fewn ysbryd rheolau’r cynllun pensiwn, a pha un a fyddai’r cais wedi cael ei gymeradwyo pe bai wedi cael ei atgyfeirio at Ysgrifennydd y Cabinet fel y dylai fod wedi.

32 Er bod Llywodraeth Cymru’n haeru bod rôl yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cael ei hail-lunio o 1 Ebrill 2018, ym mis Gorffennaf 2019 yn ystod fy archwiliad o ddatganiadau ariannol 2018-19, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hysbysu fy archwilwyr bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cymryd ymddeoliad rhannol o 1 Ebrill 2018 ac er bod ei chyflog wedi gostwng 20%, fe arhosodd telerau cytundebol eraill yn ddigyfnewid; fe barhaodd i weithio’n llawn-amser ac fe arhosodd ei rôl a’i chyfrifoldebau’n ddigyfnewid. Mae cofnodion a gwybodaeth arall o’r un cyfnod ac ar ôl hynny’n cynnwys

- mae’r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 – y datganiadau ariannol cyntaf ar ôl ymddeoliad rhannol yr Ysgrifennydd Parhaol – yn nodi: ‘mae’r gostyngiad yng nghyflog Shan Morgan o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol wedi digwydd o ganlyniad i’r penderfyniad i roi’r gorau i gronni pensiwn ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae hyn wedi lleihau cost y gyflogaeth i Lywodraeth Cymru, ond mae’r rôl yn dal i gael ei chyflawni ar sail lawn-amser’.
- mae’r Datganiadau Polisi Cyflog blynyddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd yn dilyn ymddeoliad rhannol yr Ysgrifennydd Parhaol yn datgelu ei statws fel statws cyflogai llawn-amser.
- ar 2 Awst 2019, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol anfon e-bost i Swyddfa Prif Weinidog Cymru yn dweud:

  ‘I thought the First Minister should be aware that last April I took what is described in the Civil Service jargon as ‘Partial retirement’… As you can imagine, my hours have not reduced at all over the past year, rather the opposite! I’m telling you this because we’re about to publish our Annual Accounts 2018/19 which show that my salary has reduced as a result of opting out of the Civil Service pension scheme. The Wales Audit Office seem to have misunderstood the situation and are querying how I could possibly take partial retirement in this job. The answer of course is that I haven’t, and my working hours have not reduced in any way.’

  Ar yr un diwrnod, fe anfonodd yr Ysgrifennydd Parhaol e-bost at Ysgrifennydd Cabinet y DU yn cynnwys geiriau tebyg, gan nodi hefyd y potensial ar gyfer craffu gan y cyfryngau.

- ar 7 Hydref 2019, yn ystod sesiwn i graffu ar ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd:

  ‘I have worked full-time for over 40 years in the civil service, so I’ve ended up in a very similar situation to the one that’s been publicised for the doctors in relation to taxation. I decided, therefore, that I would end my contributions to the civil service pension scheme last April. That involves various rules that mean I have to take a 20 per cent reduction in salary … I can assure you, Chair, that I’m not working any fewer hours at all. If anything, with Brexit, I’m working more.’

33 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu unrhyw ddogfennaeth gydoesol ar gyfer fy archwilwyr i gadarnhau bod swydd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cael ei hail-lunio fel a ddisgrifiwyd ym **mharagraff 29**. Mae gallu dangos bod swydd cyflogai’n gallu cael ac wedi cael ei hail-lunio i alluogi’r cyflogai i bontio’n raddol o gyflogaeth i ymddeoliad yn hollbwysig i allu dangos bod rheolau’r cynllun pensiwn wedi cael eu dilyn.

34 Yn ystod fy ngwaith archwilio, fe ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at MyCSP i geisio cadarnhad ei bod wedi cydymffurfio â rheolau’r cynllun pensiwn mewn perthynas ag ymddeoliad rhannol yr Ysgrifennydd Parhaol. Cafodd yr ohebiaeth ei drafftio ar y sail bod swydd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cael ei hail-lunio pan gymerodd ymddeoliad rhannol ar 1 Ebrill 2018. Fe gadarnhaodd MyCSP ei fod wedi’i argyhoeddi bod y trefniant gweithio y mae Llywodraeth Cymru yn awr yn haeru yr ymrwymwyd iddo o 1 Ebrill 2018 wedi cydymffurfio â’r rheolau ar gyfer ymddeol yn rhannol. Fel a nodwyd ym **mharagraff 33**, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol bod y swydd wedi cael ei hail-lunio pan gymerodd yr Ysgrifennydd Parhaol ymddeoliad rhannol. Ers hynny mae fy archwilwyr wedi darparu detholiadau perthnasol ar gyfer MyCSP o gopi drafft o’r adroddiad hwn mewn perthynas ag ymddeoliad rhannol a threfniadau gweithio’r Ysgrifennydd Parhaol. Yr wyf wedi ystyried ymateb MyCSP wrth gwblhau’r adroddiad hwn.

## Mae gennyf bryderon tebyg ynghylch trefniadau gweithio’r Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2019 a oedd hefyd, yn rhannol, y tu hwnt i gwmpas polisïau Llywodraeth Cymru

35 O 1 Ebrill 2019, mae Llywodraeth Cymru’n haeru ei bod wedi cytuno bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn gallu cronni diwrnod yr wythnos fel gwyliau ychwanegol (diwrnodau ymddeoliad rhannol), yn hytrach nag un diwrnod y mis, am amser a weithiwyd y tu hwnt i wythnos waith pedwar diwrnod, y byddai’n eu cymryd ar ddiwedd ei chontract. Mae newid o’r fath y tu hwnt i gwmpas polisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru. Pe bai trefniadau gweithio’r Ysgrifennydd Parhaol wedi cael eu newid o 1 Ebrill 2019 yn y ffordd yma, byddai wedi golygu y gallai fod gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i fwy na 120 o ‘ddiwrnodau ymddeoliad rhannol’ (oddeutu chwe mis) cyn diwedd ei chyflogaeth.

36 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu unrhyw ddogfennaeth gydoesol ar gyfer fy archwilwyr mewn perthynas â'r penderfyniad y mae'n haeru iddi ei wneud am y newid pellach hwn i drefniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol. Yn fy nhyb i roedd newid o'r fath yn newid perthnasol i gontract cyflogaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Parhaol, er na wnaed unrhyw newidiadau i'r contract hwnnw. Yr wyf hefyd yn ystyried na fu digon o dryloywder ynglŷn â'r newid hwnnw yng nghyd-destun y cofnodion a'r wybodaeth a restrwyd ym **mharagraff 32**.

37 Mae Llywodraeth Cymru'n haeru bod ei Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedi cymeradwyo'r trefniadau gweithio a nodwyd uchod, a'i fod yn meddu ar yr awdurdod gofynnol i wneud hynny. Nid wyf yn cytuno â'r farn hon am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol ym **mharagraff 29**.

38 Dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr, yn gynnar yn 2020, wedi cynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ynglŷn â'i horiau gwaith. Ni chadwyd unrhyw nodiadau o'r trafodaethau hyn.

39 Ar 6 Mawrth 2020, fe anfonodd yr Ysgrifennydd Parhaol e-bost at y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn dweud:

> '… as you know, I took 'partial retirement' from the Civil Service in April 2019. [7] Although my pay decreased by 20% and I was supposed to reduce my working hours by 20%, I have chosen to take only one day's additional time off each month (my office has the records). I would like to bank some of this unused time to take when I leave this job. Could you please confirm that this is possible, and how much of the unused time I will be able to take?'

40 Fy nealltwriaeth i am e-bost yr Ysgrifennydd Parhaol yw ei bod hi'n ystyried y dylai ei diwrnodau gwaith fod wedi cael eu gostwng i bedwar diwrnod yr wythnos pan gymerodd ymddeoliad rhannol, a'i bod yn dymuno 'bancio' amser yr oedd wedi ei weithio neu y byddai'n ei weithio dros bedwar diwrnod yr wythnos, gan gymryd yr amser hwnnw pan fyddai ei chyflogaeth yn gorffen. Nid yw'n glir o'r e-bost a oedd hi'n dymuno cymryd y diwrnodau yr oedd wedi eu bancio fel diwrnodau pan na fyddai'n gweithio ynteu cael tâl am y diwrnodau hynny ar ddiwedd ei chyflogaeth.

41 Fe ymatebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol trwy e-bost ar yr un diwrnod, gan nodi y byddai'n bosibl cymryd 69 diwrnod o wyliau, y tu hwnt i'w hawl i wyliau blynyddol yn y flwyddyn olaf (a fyddai'n cael ei gyflawni trwy fancio 25 diwrnod o wyliau blynyddol safonol dros gyfnod ei chontract, cario 12 diwrnod o wyliau blynyddol safonol drosodd i mewn i flwyddyn olaf ei chontract a chymryd 32 o ddiwrnodau 'ymddeoliad rhannol').

42 Roedd cynnwys e-bost y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn perthynas â gwyliau blynyddol safonol yn gyson â pholisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y cynnig ynglŷn â diwrnodau 'ymddeoliad rhannol' o fewn cwmpas y polisïau hynny, yn yr ystyr nad yw'r un polisi gan Lywodraeth Cymru'n

[7] Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cymryd ymddeoliad rhannol o 1 Ebrill 2018, nid Ebrill 2019 (paragraff 23).

darparu bod gweision sifil yn cael diwrnodau 'absenoldeb rhannol' na mwy o wyliau na'u hawl gytundebol.

43 Mae Llywodraeth Cymru'n haeru bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i gael ei digolledu am fod wedi gweithio mwy na'r pedwar diwrnod yr wythnos yr oedd hi'n cael tâl amdanynt, a'i bod hi'n gyson yn gweithio llawer mwy na'r oriau hyn oherwydd paratoadau ar gyfer Brexit a phandemig COVID-19. Nid wyf yn amau, yn gyffredin â llawer o weision sifil eraill yn Llywodraeth Cymru, bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi gweithio mwy o oriau nag yr oedd yn cael tâl amdanynt. Fel a nodwyd ym **mharagraff 30**, roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ymwybodol, yn dilyn ymddeoliad rhannol, y byddai ei rôl yn golygu ei bod yn ofynnol iddi weithio llawer mwy na phedwar diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, yn gyffredin ag uwch weision sifil eraill, nid oedd hawl gan yr Ysgrifennydd Parhaol i gael taliadau goramser, ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ar gyfer fy archwilwyr i ddangos bod uwch weision sifil eraill yn gallu cronni gwyliau blynyddol ychwanegol ar ben eu hawl gytundebol i wyliau blynyddol.

44 Mae'r cynnig a wnaed i'r Ysgrifennydd Parhaol gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn arwyddocaol yn fy nhyb i am ei bod yn ymddangos bod y taliad allgontractiol a wnaed i'r Ysgrifennydd Parhaol ar ddiwedd ei chyflogaeth ar 31 Hydref 2021 (**paragraffau 67 i 75**) yn seiliedig yn fras ar y negeseuon e-bost hyn a gyfnewidiwyd. Nid oes cofnod cydoesol bod unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud tua'r un adeg â'r trafodaethau yn gynnar yn 2020.

45 Ar 6 Hydref 2020, fe anfonodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol e-bost at Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru, gyda chopi at Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, yn dweud 'I can confirm that there has been no reduction in [the Permanent Secretary's] contracted hours. She is still contracted to work on a full-time basis'. Nid wyf wedi gallu cysoni'r datganiad hwn â safbwynt Llywodraeth Cymru, sef y cytunwyd y gallai'r Ysgrifennydd Parhaol gronni diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol yr wythnos o 1 Ebrill 2019.

# Rhan 3: Taliad i'r Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2021

## Nid wyf wedi gallu argyhoeddi fy hun bod y penderfyniad i wneud taliad o £80,519 i'r Ysgrifennydd Parhaol pan derfynwyd ei chyflogaeth wedi cael ei wneud yn briodol a, hyd yma, y rhoddwyd cyfrif amdano mewn modd priodol

### 'Taliad yn lle rhybudd' – £31,843

**Yn yr amgylchiadau a oedd yn bodoli yn ôl fy nealltwriaeth i pan adawodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei chyflogaeth, nid oedd hawl ganddi i gael taliad yn lle rhybudd dan delerau ei chontract, ond ni fyddai wedi bod yn afresymol iddi geisio taliad diswyddo fel digolledion am derfynu ei chyflogaeth**

46 Penodwyd yr Ysgrifennydd Parhaol (a oedd yn aelod parhaol o'r Uwch Wasanaeth Sifil) ar gontract am gyfnod penodol o bum mlynedd o 6 Chwefror 2017 tan 5 Chwefror 2022 ond gadawodd y rôl ar 31 Hydref 2021 yn dilyn penodi ei holynydd a ymgymerodd â'r swydd ar 1 Tachwedd 2021.

47 Terfynwyd cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ar 31 Hydref 2021, cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd y'i penodwyd amdano. Fy nealltwriaeth yw bod Prif Weinidog Cymru wedi gofyn am derfynu'r contract yn gynnar gan bod olynydd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cael ei adnabod, a bod arno eisiau i raglen o ddiwygiadau gael ei harwain o'r dechrau un gan y sawl a fyddai yn y swydd trwy gydol cyfnod y Senedd newydd. Yn yr amgylchiadau hyn, fe gytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai ei chontract yn cael ei derfynu cyn diwedd y cyfnod penodol ac y byddai ei chyflogaeth yn y gwasanaeth sifil yn dod i ben ar yr un diwrnod. Dywedodd Swyddfa'r Cabinet wrth fy archwilwyr mai'r un yw ei dealltwriaeth hithau am yr amgylchiadau a arweiniodd at derfynu contract a chyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol.

48 Mae contract cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol yn nodi cyfnodau rhybudd sy'n berthnasol mewn perthynas â therfynu cyflogaeth. Mae gwahanol gyfnodau rhybudd yn berthnasol gan ddibynnu ar y rhesymau dros derfynu:

- os yw Prif Weinidog Cymru, yn ei gymhwyster fel y swyddog penodi ar ran y Goron, yn terfynu'r gyflogaeth, nid yw'n ofynnol iddo roi rhybudd ysgrifenedig i'r cyflogai, ond fel arfer bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r cyflogai (ac eithrio lle mae'r gyflogaeth yn cael ei therfynu oherwydd camymddwyn dybryd). Fel arfer mae cyfnod y rhybudd a roddir gan y cyflogwr yn dibynnu ar y rheswm pam y terfynwyd y gyflogaeth.

- os caiff y gyflogaeth ei therfynu trwy gytundeb rhwng Prif Weinidog Cymru a'r cyflogai, nid oes gan y cyflogai hawl i gyfnod rhybudd.
- os yw'r cyflogai'n penderfynu gadael y gyflogaeth, mae'n ofynnol iddo/iddi roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i Swyddfa'r Cabinet/Pennaeth y Gwasanaeth Sifil ac i Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru.

49 Mae Swyddfa'r Cabinet wedi dweud wrth fy archwilwyr hefyd, dan y contract safonol ar gyfer ysgrifenyddion parhaol a oedd yn berthnasol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, bod ymadawyr sy'n gadael eu cyflogaeth trwy gytundeb, a oedd yn wir yn yr achos hwn yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, 'are not entitled to a period of notice terminating their employment unless they are leaving on Voluntary Exit (VE) or Voluntary Redundancy (VR) terms in line with the Civil Service Compensation Scheme (CSCS[8])'. Ni wnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol adael ei chyflogaeth ar delerau Ymadawiad Gwirfoddol (VE) na Diswyddiad Gwirfoddol (VR) yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

50 Mae Llywodraeth Cymru'n haeru iddi wneud taliad yn lle rhybudd i'r Ysgrifennydd Parhaol (yn seiliedig ar gyfnod rhybudd o 12 wythnos) a'i bod wedi datgelu hyn yn ei datganiadau ariannol ar gyfer 2020-21. Caiff y broses a arweiniodd at y taliad ei nodi isod.

51 Ar 7 Medi 2021, fe anfonodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol e-bost at Swyddfa Prif Weinidog Cymru yn gofyn am gymeradwyaeth i wneud taliad yn lle rhybudd, gan nodi:

'… we are aiming for a last day of service for [the then Permanent Secretary] of 31st October and a start date for [her successor] of 1st November. The FM is aware but I need his formal approval to make a Payment in Lieu Of Notice to [the then Permanent Secretary] and a payment for un-used leave – standard arrangements for all staff so I don't believe the FM needs to formally approve that element to expedite things. Once I have that Cabinet Office will write to [the then Permanent Secretary] confirming. Can you check that the FM is content and get back to me please?'

52 Fe ymatebodd Swyddfa Prif Weinidog Cymru i'r e-bost oddi wrth y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ar yr un diwrnod gan nodi bod Prif Weinidog Cymru'n fodlon cytuno i wneud taliad i'r Ysgrifennydd Parhaol yn lle rhybudd, ar y ddealltwriaeth 'she would remain available for consultation during that period (up to what would have been her contractual date)'. Er bod y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedi anfon y neges e-bost hon ymlaen at Swyddfa'r Cabinet, ni wnaeth nodi ar ba sail yr oedd gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i daliad yn lle rhybudd

53 Yn fy nhyb i, ni ddarparwyd digon o wybodaeth ar gyfer Prif Weinidog Cymru iddo allu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch y taliad arfaethedig. Nid oedd yr e-bost oddi wrth y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn cyfeirio at ddarpariaethau cytundebol yr Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â chyfnodau rhybudd, nid oedd yn nodi hyd y cyfnod rhybudd y byddai'r taliad yn ymwneud ag ef na'r taliad a

[8] Uchafswm y tâl digolledu y gellir ei roi i aelod dros oedran pensiwn yw chwe mis o gyflog a thri mis yn lle rhybudd.

fyddai'n deillio. Fel a nodwyd uchod, roedd y taliad wedi'i seilio'n anghywir ar y ffaith bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn gymwys i gael taliad yn lle rhybudd. Fel a nodwyd ym **mharagraffau 48 a 49**, nid oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn gymwys i gael cyfnod rhybudd os oedd y terfyniad yn un trwy gytundeb (ac eithrio dan amgylchiadau penodol nad oeddent yn gymwys yn yr achos hwn), ac felly nid oedd hawl ganddi i gael taliad cytundebol yn lle rhybudd.

54 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr bod ei thîm cyfreithiol wedi cael ei wneud yn ymwybodol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i daliad yn lle rhybudd. Fodd bynnag, ni ofynnwyd am gyngor cyfreithiol ffurfiol.

55 Er nad oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn gymwys, dan amgylchiadau ei hymadawiad â'i chyflogaeth yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, i gael taliad yn lle rhybudd, yr wyf yn derbyn na fyddai wedi bod yn afresymol i'r Ysgrifennydd Parhaol geisio taliad diswyddo arbennig fel digolllediad am derfynu ei chyflogaeth. Ni fyddai wedi bod yn afresymol ychwaith, yn fy nhyb i, pe bai wedi ystyried, cymeradwyo a chofnodi penderfyniad o'r fath yn briodol, i Lywodraeth Cymru fod wedi gwneud taliad o'r fath.

56 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi trin y taliad yn ei chyfrifon ar gyfer 2020-21 yn daliad yn lle rhybudd, yn hytrach na thaliad diswyddo arbennig. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cymeradwyaeth Prif Weinidog Cymru i wneud taliad yn lle rhybudd, ni wnaeth geisio'i gymeradwyaeth i wneud taliad diswyddo arbennig. O dan ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae'n ofynnol bod taliadau diswyddo arbennig yn cael eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru. Gan na wnaeth Llywodraeth Cymru drin y taliad fel taliad diswyddo arbennig, nid oes tystiolaeth ei bod wedi ystyried y driniaeth briodol o ran treth ar gyfer taliad o'r fath. Yr wyf yn nodi ac yn derbyn y gallai'r Ysgrifennydd Parhaol fod wedi ceisio gadael dan delerau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, ac y gallai hyn fod wedi golygu ei bod yn cael taliad o werth uwch na'r 'taliad yn lle rhybudd' a gafodd.

## Gweddill y gwyliau blynyddol – £9,553

### Y sail i weddill y gwyliau blynyddol heb eu cymryd a'r cyfrifiad ar gyfer y taliad oedd bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol drefniant gweithio llawn-amser wedi iddi gymryd ymddeoliad rhannol a'i bod wedi cronni gwyliau blynyddol yn ystod cyfnod rhybudd

57 Fel a nodwyd yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn haeru yn awr bod trefniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol wedi newid o 1 Ebrill 2018 ac eto o 1 Ebrill 2019. Er gwaethaf y newidiadau hyn, cafodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr un hawl i wyliau blynyddol â chyflogai cyfwerth ag amser llawn trwy gydol ei chyflogaeth.

58 Ar 7 Ionawr 2021, fe anfonodd Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol e-bost at Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru yn gofyn:

'… can I please just check that [the Permanent Secretary] still has an allowance of 31 days annual leave? (We're not sure if [the Permanent Secretary's] 20% days

impact this or not). I'm about to send [the Permanent Secretary] a copy of her annual leave sheet and just want to double check we've got all the numbers right.'

59 Fe ymatebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ar 8 Ionawr 2021, gan awgrymu y dylai lwfans gwyliau'r Ysgrifennydd Parhaol gael ei leihau i adlewyrchu'r newid mewn oriau. Yr un diwrnod, fe ysgrifennodd Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol at swyddog Adnoddau Dynol yn holi o bryd y dylai'r lleihad yn hawl yr Ysgrifennydd Parhaol i wyliau blynyddol fod yn gymwys. Yr ymateb gan y swyddog Adnoddau Dynol ar 13 Ionawr 2021 oedd:

'…it seems that when [the Permanent Secretary] took partial retirement on 1st April 2018 she opted to reduce her salary rather than her hours. Therefore, she should continue to receive the full leave entitlement of 31 days.'

60 Fe ysgrifennodd Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol at y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol eto'n gofyn am gadarnhad o hawl yr Ysgrifennydd Parhaol i wyliau ers iddi ymddeol yn rhannol. Fe ymatebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ar 13 Ionawr 2021 gan ddweud:

'I have discussed with [a HR officer], as [the Permanent Secretary] has not technically reduced her days – just her pay, there should be no reduction to her leave allowance.'

61 Ar 16 Mehefin 2021, fe baratôdd swyddog Adnoddau Dynol nodyn briffio ar gyfer Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg Llywodraeth Cymru yn nodi'r opsiynau ar gyfer ymdrin â gweddill y gwyliau blynyddol a oedd heb eu cymryd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar ddiwedd cyfnod ei chontract (5 Chwefror 2022). Roedd y nodyn briffio'n ymwneud â hawl safonol yr Ysgrifennydd Parhaol i wyliau blynyddol. Nid oedd yn cyfeirio at unrhyw newidiadau i oriau gwaith yr Ysgrifennydd Parhaol.

62 Y sail i'r nodyn briffio oedd bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i 31 diwrnod o wyliau blynyddol. Roedd contract cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol yn nodi bod ganddi hawl i 30 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr bod y gwahaniaeth hwn i'w briodoli i gario hawl ar draws o'i rolau blaenorol yn yr Uwch Wasanaeth Sifil ond nid yw wedi darparu unrhyw ddogfennaeth ar gyfer fy archwilwyr i ategu hyn.

63 Fe ymatebodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg i'r nodyn briffio ar 22 Mehefin 2021, yn ategu'r cynnig a argymhellwyd bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael tâl am wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd ei chyflogaeth oherwydd yr amgylchiadau anarferol a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ond gan bwysleisio bod rhai i aelodau eraill o staff mewn sefyllfa debyg gael eu trin yn yr un ffordd. Nododd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg hefyd, o ystyried y craffu tebygol a fyddai ar drefniadau mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Parhaol, y byddai angen ymgynghori â Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol cyn cwblhau unrhyw drefniadau. Fel y digwyddodd hi, nid ymgynghorwyd â'r Cadeiryddion.

64 Mae cofnodion Llywodraeth Cymru'n dynodi bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol 18 diwrnod o wyliau blynyddol yn weddill heb eu cymryd ar ddiwedd ei chyflogaeth. Roedd y gweddill hwn hefyd wedi'i seilio ar hawl i gronni gwyliau blynyddol dros gyfnod rhybudd o 12 wythnos, ond dan amgylchiadau ymadawiad yr Ysgrifennydd

Parhaol â'i chyflogaeth, yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, nid oedd gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i gyfnod rhybudd (**paragraffau 46 i 56**) ac nid oedd gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i gronni gwyliau ar gyfer y cyfnod hwn.

65 Yn fy nhyb i, mae safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â threfniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol yn anghyson. Os oedd gan yr Ysgrifennydd Parhaol hawl i'r un lwfans gwyliau blynyddol â chyflogai llawn-amser, nid oedd hawl ganddi i gael gwyliau ychwanegol/diwrnodau ymddeoliad rhannol ar y sail ei bod yn weithiwr rhan-amser (**paragraffau 67 i 75**). Os cafodd ei horiau gwaith eu lleihau ar ôl cymryd ymddeoliad rhannol a'u lleihau ymhellach wedyn o 1 Ebrill 2019, nid oedd hawl ganddi i lwfans gwyliau blynyddol llawn-amser[9]. Nid yw cyflogeion rhan-amser yn gymwys i gael yr un hawl i wyliau blynyddol â chyflogeion llawn-amser.

66 Yr wyf hefyd yn nodi bod y gyfradd ddyddiol a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliad ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu cymryd yn seiliedig ar drefniant gweithio llawn-amser ar gyfer yr Ysgrifennydd Parhaol. Os oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael cydnabyddiaeth ariannol am weithio'n rhan-amser, fel y mae Llywodraeth Cymru'n haeru yn awr, (pedwar diwrnod yr wythnos a chan gronni 'diwrnod ymddeoliad rhannol' bob wythnos), roedd y gyfradd ddyddiol yn anghywir a dylai, mewn gwirionedd, fod wedi bod yn uwch.

## Taliad allgontractiol – £39,123

### Y sail i'r taliad oedd bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol drefniant gweithio rhan-amser ar ôl iddi gymryd ymddeoliad rhannol

67 Fel a nodwyd ym **mharagraff 35**, mae Llywodraeth Cymru'n haeru yn awr bod yr Ysgrifennydd Parhaol, ym mis Ebrill 2019, wedi dechrau cronni diwrnod yr wythnos fel 'gwyliau blynyddol' neu 'ddiwrnodau ymddeoliad rhannol' i'w cymryd ar ddiwedd ei chontract. Yn fy nhyb i, roedd y trefniant hwn yn newydd a dadleuol. Nid oedd wedi'i ategu gan dystiolaeth ddogfennol ddigonol, roedd yn anghyson â thystiolaeth ddogfennol arall, nid oedd yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru ac nid oedd digon o dryloywder ynglŷn ag ef.

### Roedd nifer y diwrnodau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliad yn fympwyol a heb sail briodol

68 Nid oes cofnod cydoesol i ategu nifer y 'diwrnodau ymddeoliad rhannol' yr oedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi'u cronni neu eu cymryd ers mis Ebrill 2019. Ym mis Gorffennaf 2021, fe ddatblygodd Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol ddogfen weithiol

[9] Os mai dim ond pedwar diwrnod yr wythnos yr oedd hi'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Parhaol eu gweithio o fis Ebrill 2019, byddai ganddi oddeutu 0.5 diwrnod o wyliau'n weddill heb eu defnyddio ar yr adeg y gadawodd ei chyflogaeth ar 31 Hydref 2021. Os oedd hi'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Parhaol weithio diwrnod yn llai bob mis yn y flwyddyn o fis Ebrill 2018 tan fis Mawrth 2019, ni fyddai gwyliau wedi bod yn weddill ganddi heb eu cymryd pan ddaeth ei chyflogaeth i ben.

i gyfleu sut y gellid cyfrifo'r 'diwrnodau ymddeoliad rhannol'. Roedd y ddogfen yn dynodi cyfanswm o 148 o ddiwrnodau ymddeoliad rhannol. Ar wahân, mae hefyd yn awgrymu cyfanswm o 146 o ddiwrnodau, a gyfrifwyd trwy gyfuno'r hyn a ddisgrifir fel 73 o ddiwrnodau ymddeoliad rhannol a 73 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol.

69 Mae fy archwilwyr wedi archwilio'r cyfrifiadau a chyfathrebiadau perthnasol amdanynt ond nid ydynt wedi gallu eu hargyhoeddi eu hunain bod y sail ar gyfer y gweddillion hyn yn gadarn. Mae'r fethodoleg yn aneglur, anghyson, ac yn anghywir ac nid yw'n seiliedig ar gofnod penodol o'r diwrnodau gwirioneddol a weithiwyd. Roedd nodyn briffio diweddarach a ddarparwyd gan swyddog Adnoddau Dynol ar gyfer y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg yn argymell y dylid gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gymryd peth o'i gwyliau a oedd heb eu cymryd ar gyfer ei chyfnod rhybudd o dri mis a thalu iddi am y gweddill.

70 Ar 7 Medi 2021, fe anfonodd Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol e-bost at y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol gan ddweud, 'following discussion I can confirm that [the Permanent Secretary] will have 74 days of leave [partial retirement days] remaining as of 31 October'. Nid oedd yr e-bost yn darparu unrhyw dystiolaeth i ategu sut yr oedd y gweddill o 74 o ddiwrnodau wedi cael ei gyfrifo.

71 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedi gwneud cynnig i'r Ysgrifennydd Parhaol i dalu 74 o 'ddiwrnodau ymddeoliad rhannol', yn seiliedig ar hanner y 148 o 'ddiwrnodau ymddeoliad rhannol' rhwng 1 Ebrill 2019 a 5 Chwefror 2022. Felly roedd nifer y diwrnodau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliad yn fympwyol a heb sail briodol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr, 'a normal rule of thumb when exit payments to Welsh Government staff were being considered is to offer about half of what might be considered to be a full entitlement and that practice was followed in this instance'.

72 Fel a nodwyd ym **mharagraff 51**, ar 7 Medi 2021, gwnaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol anfon e-bost at Swyddfa Prif Weinidog Cymru'n ceisio cymeradwyaeth i roi taliad yn lle rhybudd. Yn fy nhyb i, dylai'r e-bost fod wedi egluro'r posibilrwydd o wneud y taliad allgontractiol, sef yr elfen fwyaf dadleuol o'r taliad ar y cyfan a wnaed i'r Ysgrifennydd Parhaol yn fy nhyb i am nad oedd o fewn 'trefniadau safonol ar gyfer yr holl staff' ac am nad oedd darpariaeth ar gyfer diwrnodau ymddeoliad rhannol o fewn polisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru.

## Nid oes dogfennaeth gydoesol sy'n dangos tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

73 Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'n categoreiddio taliadau allgontractiol fel un math o 'Daliad Arbennig'. Nid wyf wedi gallu dod i gasgliad pendant pa un a oedd y taliad yn gyfystyr â thaliad 'allgontractiol', ond yr wyf yn cytuno bod y taliad yn 'Daliad Arbennig'. Yn fy nhyb i, roedd y taliad hefyd yn newydd, yn ddadleuol ac o bosibl yn adleisiol ac, yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, dylai fod wedi cael

ei atgyfeirio’n ffurfiol at Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyriaeth/penderfyniad.

74 Ar ben hynny, mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’n nodi bod angen i daliadau arbennig gael eu cyfiawnhau’n briodol er budd y cyhoedd, gyda phwyslais arbennig ar werth am arian, a chan roi ystyriaeth i’r ffactorau canlynol:

- Natur ac amgylchiadau’r achos
- Y swm dan sylw
- Y cyngor cyfreithiol, lle y bo’n briodol
- Y gweithdrefnau rheoli a ddilynwyd
- Asesiad o’r gwerth am arian y mae’r achos yn ei gynnig
- Unrhyw agweddau anariannol
- A allai’r achos dan sylw gael effaith ehangach

75 Nid yw fy archwilwyr wedi gweld unrhyw gofnod bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried y ffactorau hyn cyn i'r taliad gael ei wneud.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon